# tafod elái

MAWRTH 2023

Rhif 375

Pris £1


## Eisteddfod 2024 – Bant â ni




Gweithgaredd swyddogol cyntaf Eisteddfod Rhondda Cynon Taf fydd lansiad yn Nhafarn y Lion, ar y stryd fawr yn Nhreorci ar Fawrth 4ydd. Y syniad yw rhoi blas i bobl o'r hyn y gellir ei ddisgwyl ar faes yr Eisteddfod. Dyma flas o'r gweithgareddau:

- 11yb Picnic Tedi Bears mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i gynrychioli'r Pentre Plant
- 2yp Te prynhawn gydag adloniant i siaradwyr newydd i gynrychioli Maes D
- 4yp Yr Athro Dylan Foster Evans yn darlithio i gynrychioli Pabell y Cymdeithasau
- 5yp Lansiad swyddogol wedi'i ddilyn gan y grŵp gwerin Afanc i gynrychioli'r Tŷ Gwerin
- 7yp Pump o feirdd mewn Sesiwn Pennill a Pheint i gynrychioli'r Babell Lên a Sesiwn Comedi Mas ar y Maes
- 8yp Cymanfa Werin
- 9yp Candelas i gynrychioli Llwyfan y Maes

Mae'r cyfan am ddim. Does dim un Eisteddfod wedi cychwyn fel hyn o'r blaen ac mae'n arwydd bod ein Heistedddfod ni am fod yn un groesawgar a fydd yn dangos ein hiaith a'n diwylliant ar ei gorau.

Ond wrth gwrs, rhaid bwrw ati hefyd o ddifri i greu rhestr testunau a bydd cyfarfod cyhoeddus ym Mhrifysgol De Cymru yn Nhrefforest nos Iau, 16 Mawrth. Rydyn ni'n edrych am bobl ar gyfer deg o bwyllgorau: celf gweledol, gwyddoniaeth a thechnoleg, llên, cerdd dant, gwerin, cerddoriaeth, dawns, dysgwyr, theatr, llefaru. Os oes gennych ddiddordeb yn y meysydd hyn, plîs dewch. Neu os ydych chi'n nabod rhywun â diddordeb, rhowch wybod iddyn nhw. Bydd cyfle i bobl leol weithio gyda phanelau canolog yr Eisteddfod i lunio rhestr testunau ddydd Sadwrn, 18 Mawrth rhwng 10.30am a 2pm. Bydd y cyfarfodydd hyn eto ym Mhrifysgol De Cymru.

Bydd y lansiad yn Nhreorci yn gyfle i siarad â phobl a dechrau casglu enwau pobl sydd am wirfoddoli. Yn dilyn sefydlu'r pwyllgorau testun, bydd ton arall o bwyllgorau ac wrth gwrs bydd yn rhaid dechrau codi arian.

Gobeithio y gwela i chi yn y Lion yn Nhreorci ar Fawrth y 4ydd lle bydd y bwrlwm yn cychwyn.

Helen Prosser

## Cofio Cen



Roedd rhaglen Heno wedi mynd i gyflwyniad arbennig gan Glwb Pêl-droed y Cymric yng Nghaerdydd ddiwedd mis Ionawr i gofio am Cen Williams – Cen Cartŵn i'w ffrindiau - a fu farw yn 2020. Bu rhai o gyn-chwaraewyr y clwb yn casglu arian i gael crysau newydd i'r tîm ieuenctid ac roedd yn gyfle i gofio am gyfraniad Cen i fywyd y clwb.

Ymhlith y rhai a holwyd roedd Gareth Huws, Pentyrch, un o sylfaenwyr y Clwb a fu'n chwarae i'r clwb am dros 20 mlynedd gan gychwyn yng Nghynghrair y Cardiff and District yn 1969. Roedd Rhodri Jones yn un o flaenwyr y clwb yn y cyfnod cynnar a bu'n sôn am lyfryn gyhoeddwyd i ddathlu 25 mlynedd y clwb gyda llawer o hanesion, lluniau ac wrth gwrs cartwnau Cen.



Mae Clwb Cymric bellach wedi datblygu'n glwb llwyddiannus a balch o'i wreiddiau sydd wastad yn ceisio chwarae pêl-droed safonol a hefyd hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Erbyn heddiw mae'r clwb yn rhedeg dau dîm hŷn a thîmau ieuenctid o'r enw Cymric Crocodeils. Mae'r tîm cyntaf yn agos i'r brig yn Adran 1 o Gynghrair Alliance De Cymru.



# tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Ebrill
i gyrraedd erbyn
31 Mawrth 2023

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk



CYMRAEG

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## CLWB Y DWRLYN

### 'Fy Nhrysor i . . .'

*8yh Nos Iau, 6 Ebrill*
*Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch*

**Manylion oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**

## CYLCH CADWGAN

Am 8 o'r gloch
nos Wener
24 Mawrth 2023

### Ifor ap Glyn

*'Y bardd yn darllen a thrafod cerddi ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol'*

**Y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf**
**Trefnwyr – Capel y Tabernacl**

*Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru*

## TONYREFAIL

*Gohebydd Lleol:*
*Helen Prosser*
prosserh@btinternet.com

**Colli Marion Llywelyn**

Unwaith eto'r mis hwn, rhaid ysgrifennu pwt am un o ddarllenwyr selog y Tafod sydd wedi ein gadael. Roedd Marion Llywelyn yn 99 oed a byddai wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed ym mis Ebrill. Bu'n byw yn 47 Heol Waunrhydd ar hyd ei hoes nes symud i gartref gofal Penrhos yn 97 oed. Cafodd ofal arbennig yn y cartref hwnnw. Bu farw mam Marion pan oedd yn fabi chwe wythnos oed. Aeth ymlaen i gael lle yn Ysgol Ramadeg Tonyrefail yn 1933, y flwyddyn yr agorodd yr ysgol. O'r ysgol aeth hi i weithio i'r cyngor lleol ym Mhontyclun fel aelod o staff dros dro ar drothwy'r ail ryfel byd. Roedd galw am staff dros dro am fod cymaint o staff yn mynd i ymladd yn y rhyfel. Aeth Marion i'r adran gynllunio ac yno buodd hi nes iddi hi ymddeol.

Roedd yn weithgar iawn yng Nghapel Ainon, Tonyrefail – yn ddiacon ac yn ysgrifennydd. Ac roedd hi hefyd yn weithgar iawn ar Bwyllgor Cansyr Tonyrefail gan weithredu fel trysorydd am nifer fawr o flynyddoedd. Cofiaf fy mam a modryb yn mynd i'r pwyllgor hwnnw hefyd. Codon nhw filoedd o bunnoedd dros y blynyddoedd, a mwynhau eu cyfarfodydd cyson yn y clwb rygbi.

## Cymrodorion Caerdydd

7 Ebrill **Cennin a Chig Oen? Golwg ar fwyd Cymru** - Carwyn Graves
I ymuno, neu am ddolen i gyfarfod unigol (£3) cysyllter â Gwynn Matthews, m.g.derwendeg@gmail.com
(029 20891802)




***Neuadd Dewi Sant Caerdydd***

***Cwmni Theatr Maldwyn yn cyflwyno***

### Y Mab Darogan

Sadwrn 29 Ebrill 2023, 7:30pm

Wrth ddathlu 40 mlynedd ers sefydlu'r Cwmni, fe gawn weld y cynhyrchiad newydd hwn sy'n olrhain hanes gwrthryfel Owain Glyndwr, un o'n harwyr mwyaf fel cenedl.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Dymuniadau Gorau**
Braf yw gweld Ken Jones o gwmpas unwaith eto ac yn gwella'n dda wedi iddo fod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Ennill y Fedal Ryddiaith**
Llongyfarchiadau i Eifion Glyn wedi iddo ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Caerdydd. 'Dianc' oedd testun gosod y gystadleuaeth a Llio Maddocks a Glenys Roberts oedd y beirniaid. Stori fer oedd gwaith 'Coch Bach y Bala,' sef Eifion, a'r teitl oedd 'Cyw a Fegir yn Uffern.' Dianc trwy gyfrwng cyffuriau oedd y prif gymeriad. Llongyfarchodd y beirniaid Eifion gan ddweud iddo gyflwyno "darn cryf o ysgrifennu sy'n argyhoeddi'n llwyr."

**Cydymdeimlad**
Roedd yn drist clywed am farwolaeth Gwyneth Williams wedi iddi ddiodde blynyddoedd o iechyd bregus. Un o Gymry Llundain oedd Gwyneth, fel ei gŵr John, ond roedd ganddi gysylltiadau teuluol agos â Thremadog yn y gogledd a Betws Bledrws ger Llanbed yn y de.

Bydd nifer ohonom yn cofio sut y trefnodd Gwyneth gylch gwarchod wedi iddynt symud fel teulu ifanc i'r pentre hanner canrif yn ôl. Wedi dilyn gyrfa fel nyrs, yn anffodus ni chafodd Gwyneth 'mo'r iechyd i fwynhau ei hymddeoliad ers peth amser.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at John a'r plant Hywel, Gareth a Siân a'u teuluoedd ac hefyd Glenys ei chwaer.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn yn dda i Peter Evans, Rhydlafar wrth iddo wella yn dilyn llawdriniaeth lwyddiannus ar ei ben-glin yn ddiweddar.

**Cylch Cadwgan**
'Y Cyfansoddiadau – y ffraeo a'r gwobrwyo'. Dyna oedd teitl cogleisiol Vaughan Hughes i'w gyflwyniad i Gylch Cadwgan ym mis Chwefror a drefnwyd gan Clwb y Dwrlyn. Canolbwyntiodd ar yr Eisteddfodau a gynhaliwyd yn Sir Fôn, lle'i ganwyd – Caergybi 1927, Llangefni 1957 ac eto Llangefni 1983 - a'r Cyfansoddiadau a gynhyrchwyd yn dilyn yr Eisteddfodau hynny gan drafod eu cynnwys.










Yn y cyfrolau cynnar rhoddwyd y pwyslais ar farddoniaeth cyn i ryddiaith ennill ei le ac yn ogystal, nid oedd y beirniadaethau yn cael eu cynnwys. Daeth newid hefyd wrth i'r gair 'Brenhinol' ddiflannu o'r clawr.

Fel yr awgrymwyd yn y teitl, soniodd am ambell gam ac anghydfod rhwng y beirniaid, â'r mwyafrif yn ddynion wrth gwrs, ac yn gam neu yn gymwys, amheuaeth am ddilysrwydd un cystadleuydd benywaidd arbennig.

Arwydd sicr o lwyddiant y noson oedd yr holl drafod wrth i'r gynulleidfa sgwrsio cyn gadael a sawl un â barn wahanol am yr awdl orau neu gystadleuydd unigol, heb sôn am y beirniaid eu hunain. Felly, roedd y storiau yn ogleisiol a'r 'sgwarnogod a drafodwyd yn ddadleuol a doniol. Diolch i Vaughan Hughes am noson ddifyr iawn. Fe fydd y trafod yn parhau!

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Marian Wynne fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ym mis Chwefror. Gwerthfawrogwn ei chyfraniadau cyson fel gohebydd.

# PONTYPRIDD

Colofnydd y mis Menna Lewis

**Penblwydd hapus**
Pob dymuniad da i Gareth Blainey a fu'n dathlu pen-blwydd nodedig ym mis Chwefror. Gobeithio gest ti ddiwrnod wrth dy fodd â chacen arbennig i nodi'r achlysur.

**Gwellhad buan**
Pob dymuniad da i Dilys Davies ar ôl iddi gael codwm yn ddiweddar. Gobeithio bod yr ysgwydd yn gwella ac y byddi nôl yn mwynhau gyrru cyn bo hir.

**Merched y Wawr**
Cawsom noson hyfryd ddechrau mis Chwefror gyda Myrna, aelod o'r gangen, yn dangos ei dawn cwiltio. Clywsom am hanes y grefft dros y blynyddoedd a chawsom gyfle i weld a rhyfeddu at ddawn Myrna gyda'r nodwydd.

Mis Mawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda swper yn Tratorria. Croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni Mawrth y





9fed am 6.30 yh. Rhowch wybod i Jayne os hoffech ddod.

Ein siaradwraig ar Ebrill yr 20fed fydd Beti George. Eto, croeso i aelodau a ffrindiau i ymuno gyda ni yng Nghlwb y bont am 7.30yh. Croeswn ein bysedd na fydd glaw mawr ym mis Ebrill!

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol 2024 ar y gorwel, rhaid dechrau meddwl am gyfraniad y gangen a'r rhanbarth i'r achlysur. Rhannwch eich syniadau ar whatsapp y gangen neu gyda'r aelodau ac fe ddaw cyfle i drafod yn bellach gyda Jên Dafis, swyddog datblygu'r rhanbarth.

**Clwb llyfrau**
Bydd y clwb llyfrau yn cyfarfod yn y Llyfrgell newydd Mawrth y 15fed am 10.30yb. Mae'n gyfle i drafod llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg a chael paned a chlonc yr un pryd. Croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni. Mae digon o ddarllenwyr brwd yn yr ardal.

Bydd cyfarfod mis Ebrill ar y 26ain.

**Dathlu'r Gymraeg**
Llongyfarchiadau i'r archfarchnad Lidl am dderbyn tystysgrif Cynnig Cymraeg. Mae'r siop drws nesaf i Ysgol Evan James yn denu'r rhieni a'r plant yn ddyddiol ac yn enghraifft bwysig iddynt weld a chlywed yr iaith tu allan i'r ysgol. Mae'r cwmni yn flynyddol yn hybu nwyddau i ddathlu Santes Dwynwen a Gŵyl Ddewi. Maent yn hynod falch o fod yr archfarchnad gyntaf i dderbyn y dystysgrif. Esiampl ardderchog! Daliwch ati Lidl!

**Capel Sardis**
Bydd gwasanaeth datgorffori y capel yn digwydd bnawn Sul Mawrth y 5ed am 2.30. Diwedd cyfnod yn hanes tref Pontypridd.

Gohebwyr mis Ebrill yw Gareth a Delyth Blainey. Cysylltwch i roi newyddion yr ardal.

# Cofio Wil Davies

***Roedd Wil Davies a fu farw yn ddiweddar, yn gyfarwyddwr a chynhyrchydd teledu tu hwnt o ddawnus. Bu'n gyfrifol am nifer o gyfresi poblogaidd ar S4C yn ogystal a sianeli eraill. Yn eu plith roedd 'Yr Ocsiwniwr' a 'Y Briodas Fawr'. Yn enedigol o Bontrhydyfen bu'n byw am flynyddoedd a hyd y diwedd yn y Beddau. Un oedd yn ei adnabod ers bore oes oedd John Llewellyn Thomas, Efail Isaf.***



John Thomas a Wil Davies

Cefais y fraint o adnabod Wil fel cyfaill am dros 65 o flynyddoedd. Cafodd ei fagu ar aelwyd ac mewn pentre diwylliedig hollol Gymreig. Roedd dylanwad y teulu yn gryf arno, ei dad Herbert a'i dadcu Sam yn delynorion o bwys yn yr ardal a thu hwnt. Byd y Capel, Noson Lawen, Eisteddfodau a Rygbi hefyd oedd dylanwadau eraill arno.

Roedd Wil yn falch dros ben o'i fagwraeth ac yn Gymro i'r carn gyda'r 'Wenwyseg' ar ei wefusau tan y diwedd. Roedd pum mlynedd rhyngom, sy'n oes yn yr ysgol gynradd, ond rwy'n cofio Wil yn dechrau gyda John Griffiths, Geraint Griffiths ac Hefin Ellis a nes ymlaen Clive Harpwood. Daeth yn ffrind agos i'm brodyr Hywel a Wil ac yn enwedig Hywel.

Er iddo fynychu ysgol gynradd Gymraeg daeth yn ffasiynol iddynt 'wilia'r iaith fain' ac yn enwedig yn eu harddegau. A dyna oedd y bregeth gen i iddynt - 'wiliwch Gwmrag.' Neges lwyddiannus i bob un ohonynt gan eu bod wedi magu eu teuluoedd yn y Gymraeg erbyn hyn.

Roedd Wil yn chwaraewr rygbi (mewnwr) dawnus i'r Bont am flynyddoedd ac yn boblogaidd iawn gyda'i gyd chwaraewyr. Cadwais mewn cysylltiad ag ef dros y blynyddoedd o Ysgol Ramadeg Glanafan, Port Talbot, i'r Coleg, Gwasanaethau Cymdeithasol, ei waith yn y byd darlledu, Ysgol Llanhari ac yn ddiweddar cysylltiadau teuluol yn 'Ocwd' (Oakwood) Pontrhydyfen.

Roedd Wil yn falch o'i fagwraeth a'i ardal enedigol. Yn falchach byth o'i deulu - Jane, y bechgyn a'i wyrion. Byddai wastad gwên ar ei wyneb ac yn barod ei gymwynas a'i draed ar y llawr.

Yng Ngorffennaf 2019 gofynnais iddo os oedd yn barod i ddod i gwrdd â Chymdeithas Gymraeg Llantrisant ar ein ymweliad â'r Bont. Daeth Wil, ac fe gafwyd ymweliad ysgubol yn crwydro'r pentre gan adrodd hanes diwydiannol, diwylliannol a chymeriadau yr ardal, yr Ysgol Gymraeg, teulu'r Jenkins ac ymweliad Richard a Liz Taylor i dŷ Hilda yn Penhydd Street. Taith llawn hiwmor a chariad at ei filltir sgwâr a phawb wedi gwirioni ar ei bersonoliaeth hoffus ac agos atoch.

Cefais sawl sgwrs ffôn ag e yn ystod haf llynedd ond doedd dim sôn am salwch felly roedd ei farwolaeth yn sioc i mi.

Mae ymadawiad Wil yn golled enfawr i'w deulu, ei wraig Jane a'u tri mab a'r wyrion, yn ogystal a'i ffrindiau ac i Gymru gyfan. Fe gafodd fywyd llawn o'r crwtyn bach yn ysgol y Bont i'r byd mawr ble wnaeth ei farc.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Ioan Emanuel, Tŷ Gwyn a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ddiwedd mis Ionawr.

**Gwobr Mentrau Iaith**

Cyhoeddwyd Gwobrau Mentrau Iaith yn ystod mis Chwefror ac mi ddaeth Menter Caerdydd i'r brig yn y categori "Cymuned" am drefnu Gŵyl Tafwyl. Prif weithredwr Menter Caerdydd ers mis Tachwedd 2021 yw Heulyn Rees, Penywaun. Yn ei gyfweliad ar Radio Cymru un bore fe soniodd fel roedd wedi mwynhau mynychu'r Ŵyl ers ei chychwyn yn 2006, ond profiad digon brawychus, yng ngeiriau Heulyn, yw'r cyfrifoldeb o drefnu'r Ŵyl. Mae rhywbeth i bawb yn yr Ŵyl erbyn hyn gydag amrywiaeth o bebyll yng Ngerddi'r Castell, er mai cerddoriaeth yw prif atyniad yr Ŵyl. Mae'r Ŵyl yn denu rhyw ddeng mil ar hugain o bobl i'r brifddinas gan ddod â'r Gymraeg i galon y ddinas. Pob hwyl i ti Heulyn gyda gwyliau'r dyfodol.

**Côr Godre'r Garth**

Bu aelodau Côr Godre'r Garth yn recordio emynau ar gyfer y rhaglen "Caniadaeth y Cysegr" yn y Tabernacl nos Sul, Chwefror 5ed.

**Y Tabernacl**

**Brysiwch Wella**

Da deall fod Ken Jones a Carey Williams wedi dychwelyd adref ac yn gwella'n raddol ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Tri aelod arall sydd yn disgwyl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yw Mike West, Ioan Rees a Geraint Rees. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddynt. Yr un yw ein dymuniadau i Glenys Griffiths, Llanharan wedi iddi gael codwm cas wrth ymweld â'r fferyllfa leol.

**Merched y Tabernacl**

Mi ddaeth nifer dda o aelodau'r gymdeithas ynghyd i fwynhau'r Cinio Blynyddol ym Mwyty'r Caesar's. Cafwyd gwledd i fwyta a digon o gyfle i gael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le.

Fore Gwener, Chwefror 10fed daeth criw da o'r aelodau i'r Ganolfan i fwynhau sgwrs gan Y Parchedig Allan Pickard. Fe aeth â ni yn annisgwyl am dro i Norwich drwy gyfrwng cân a llun gan adrodd hanes diddorol iawn y Santes Julian a'r eglwys hardd yn y ddinas.

Y cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd i weld arddangosfa o hanes y Gorfforaeth Ddarlledu yng Nghymru ar ddydd Gwener, Mawrth 10fed. Cyfarfod am baned yn y cyntedd am 11 o'r gloch.

**Derbyn Aelod Newydd**

Fore Sul cyntaf mis Chwefror, Eurgain Haf, sydd yn rheolwr Cyfryngau a Chyfathrebu Achub y Plant fu'n cynnal yr Oedfa yn Y Tabernacl. Yn y gwasanaeth Cymun ar ddiwedd yr Oedfa fe dderbyniwyd Eurgain yn aelod o'r eglwys gan Y Parchedig Eirian Rees. Mae Eurgain wedi bod yn aelod ffyddlon o'r gynulleidfa ers tro.

**Sul y Cyfundeb**

Fel y sylwch yn y rhestr "Trefn yr Oedfaon" isod ni fydd oedfa yn Y Tabernacl ar Sul, Mawrth 12fed gan fod Eglwysi Annibynnol Dwyrain Morgannwg yn cyfarfod yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd. Bydd nifer o weithgareddau creadigol yn cael eu trefnu a chyfle i gymdeithasu, gydag Oedfa fywiog i gloi. Bydd gofyn rhoi gwybod ymlaen llaw os ydych am fynychu'r digwyddiad.

**Cylch Cadwgan**

Bydd Ifor ap Glyn, y bardd, yn darllen a thrafod cerddi ei gyfnod fel Bardd Cenedlaethol Cymru yng Nghanolfan y Tabernacl, nos Wener, 24ain o Fawrth am 8 o'r gloch.

**Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**

Yn dilyn cyflafan y ddaeargryn yn Nhwrci a Syria mae aelodau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn argymell i aelodau'r Tabernacl gyfrannu'n uniongyrchol i elusennau cydnabyddedig, yn hytrach na gwneud cyfraniad drwy goffrau'r Tabernacl, gan fod cymaint o frys i ymgeleddu a chynorthwyo'r trueiniaid yn Nhwrci a Syria.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Mawrth**

Mawrth 5ed Rhiannon a Gareth Humphreys
Mawrth 12fed Sul y Cyfundeb yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd.
Mawrth 19eg Y Parchedig Dyfrig Rees
Mawrth 26ain Robat Powell a'r Parchedig Gethin Rhys.

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y mis: Margaret White**

**Ymweliad â'r Senedd**
Ar Chwefror 8fed aeth y dosbarth Cymraeg Gloywi Iaith, i Fae Caerdydd i deithio o gwmpas y Senedd gyda thywysydd yn gyntaf ac wedyn i glywed Elin Jones yn siarad am ei gwaith fel Llywydd. Cwrddon ni o flaen y senedd am 10.15 ac ar ôl mynd trwy'r holl ddiogelwch aethon ni i'r ail lawr i gael diodydd a bisgedi a siawns i ymlacio a siarad. I ddechrau gwelson ni Ystafell Pwyllgor 3 ble mae gwaith manwl y Llywodraeth yn cael ei drafod cyn mynd ymlaen at y brif siambr. Wedyn yn y brif siambr gwelson ni'r holl dechnoleg sy'n cefnogi gwaith y Senedd. Dywedodd y tywysydd dylai Cymru weiddi mas a dathlu'r ffordd 'ni'n defnyddio technoleg yn y senedd - 'ymhlith y gorau yn y byd' meddai e. Daeth Elin Jones i siarad â ni ac i ateb rhai cwestiynau. Dangosodd hi lle mae'r byrllysg yn cael ei gloi ar ochr arall ei desg i'w atal rhag cael ei ddwyn. Esboniodd hi fod y Senedd, ar hyn o bryd, yn trafod cynyddu'r nifer o aelodau i tua naw deg ac, yn ffodus, roedd penseiri'r adeilad wedi cynllunio wal ffug o gwmpas ystafell yr aelodau sy'n gallu cael ei ddymchwel i wneud mwy o le. Roedd y daith yn ddiddorol iawn ond gorffennodd hi yn rhy gynnar. Diolch o galon i Daniela Schlick sy'n gydlynydd Prosiectau i Fentrau Iaith Cymru am y cyfle gwych yma ac i Ken am yr adroddiad yma.

**Merched y Wawr Tonysguboriau**
Cafwyd noson ddiddorol iawn yn Café 50 ar y 15fed o'r mis lle roedd Alun Caffrey yn ein goleuo ni. Dan sylw oedd hanes y ddymchwa yn yr Albion yng Nghilfynydd Mehefin 23ain 1894 o safbwynt papurau newyddion Cymru a thros y byd. Gwelsom luniau hanesyddol o'r pentref a'r gymdeithas bryd hynny a chawsom gyfle i holi Alun tra'n cael paned. Awran fach hyfryd iawn a diolch i Beti am drefnu.






Y Grŵp Jas Burum fu'n diddanu yng Nghlwb y Bont ar ddechrau eu taith o gwmpas Cymru. Aelodau'r grŵp yw'r brodyr Daniel (saxaphone) a Tomos Williams (trwmped), Patrick Rimes (pibau), Dave Jones (allweddellau), Aidan Thorne (bas) a Mark O'Connor (drymiau).

**Eisteddfod Dda**
Llongyfarchiadau i Geraint Llewelyn Barnes ar ennill cadair Cyfnod Allweddol 3 Eisteddfod Ysgol Llanhari. Rebel oedd y testun eleni ac fe benderfynodd Geraint ysgrifennu stori ddychmygol amdano'i hun yn gwrando ar araith Martin Luther King ar risiau Cofeb Lincoln, Washington.



Llongyfarchiadau mawr iawn hefyd i Ela, wyres Eleri a Gwilym Hughes, ar ddod yn ail am y Gadair yn Adran hŷn yn Eisteddfod Llanhari. Cafodd y gwaith ganmoliaeth uchel iawn. Hoffen ni gyd ddarllen y gwaith dwi'n siŵr, gan i Ela ysgrifennu portread byw iawn am ei thaid!

**Croesfan Newydd**
Mae'r gwaith wedi dechrau ar greu croesfan pelican yn Y Groesfaen. Y tebygrwydd ydy bydd y gwaith yn parhau am ryw dair wythnos arall. Bydd y pentrefwyr yn croesawu'r groesfan yn fawr gan fod trigolion Y Groesfaen wedi bod yn ymgyrchu i gael man diogel i groesi'r brif ffordd ers blynyddoedd. Mae llif y traffig drwy'r pentref wedi cynyddu'n aruthrol yn ddiweddar yn arbennig ers codi'r stadau newydd o dai yng Nghapel Llanilltern, Rhydlafar a Gogledd Caerdydd.

## Seremonïau'r Orsedd

Mae Gorsedd Cymru yn chwilio am blant, pobl ifanc ac oedolion o ardal Rhondda Cynon Taf i fod yn rhan o seremoniau'r Orsedd yn #steddfod2024. Beth am wneud cais ar gyfer:

Dawns Flodau a Chynnyrch y Meysydd
Llawforynion yr Orsedd
Macwyaid yr Orsedd
Cyflwynydd y Flodeuged
Cyflwynydd y Corn Hirlas

16 o blant ysgolion uwchradd y dalgylch fydd yn perfformio'r Ddawns Flodau ac estynnir gwahoddiad i blant sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 7 ysgolion Rhondda Cynon Taf i fynychu clyweliad er mwyn dewis y sgwad o tua 20. Noder: Bu newid i oed y dawnswyr yng Ngheredigion y llynedd, a bydd y drefn yma yn parhau ar gyfer 2024. Mae hefyd groeso i fechgyn a merched i ymgeisio.

Dwy fydd yn cymryd rhan yn y seremonïau hynny yw'r Llawforynion sy'n gweini ar Gyflwynydd y Flodeuged. Gwahoddir merched sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 6 yn ysgolion y dalgylch i ymgeisio am y swyddi hyn.

Dau arall fydd yn cymryd rhan yn y seremonïau hynny yw'r Macwyaid sy'n gweini ar Gyflwynydd y Corn Hirlas. Gwahoddir bechgyn sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 6 yn ysgolion y dalgylch i ymgeisio am y swyddi hyn.

Mae Cyflwynydd y Flodeuged a Chyflwynydd y Corn Hirlas yn chwarae rhan amlwg yn seremonïau Gorsedd Cymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac yn ystod seremoni'r Cyhoeddi. Eleni, cynhelir y Cyhoeddi ddydd Sadwrn 24 Mehefin 2023, a'r seremonïau gorseddol wythnos yr Eisteddfod ar ddydd Llun 5 Awst, dydd Mercher 7 Awst a dydd Gwener 9 Awst 2024.

Rhagor - https://bit.ly/3Iw9TSD

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Mari Emlyn, awdur *Llyfr y Flwyddyn*, nofel am weithred eithafol dyn sy'n anelu at fod yn arwr y byd llenyddol Cymraeg.**

**Beth yw eich gwaith?**
Awdur ac actor.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Dysgu Cymraeg i oedolion un dydd yr wythnos a rhedeg cwmni cynllunio a chreu lampau o'r enw Gola https://gola.cymru

**O ble rydych chi'n dod?**
Caerdydd.

**Ble rydych chi'n byw?**
Y Felinheli.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Do, bûm yn ffodus iawn o gael dwy ysgol Gymraeg wych mewn dwy sir, Ysgol Bryntaf yng Nghaerdydd (De Morgannwg) ac wedyn Ysgol Gyfun Llanhari (Morgannwg Ganol). Golygai hyn y gallwn chwarae'r soddgrwth efo Cerddorfa De Morgannwg a chanu'r delyn efo Cerddorfa Morgannwg Ganol a thrwy hynny gyfarfod llawer o ffrindiau newydd.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Fy mam, Shân Emlyn. Roedd hi'n ddynes ddiwylliedig iawn ac fe drosglwyddodd i mi gariad tuag at yr iaith Gymraeg ac at lenyddiaeth. Caf fy nylanwadu bellach gan fy mhlant, a dw i'n dibynnu dipyn arnyn nhw wrth geisio ymdrin â thechnoleg!

**Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?**
Dw i wedi ysgrifennu pum nofel: *Cam wrth Gam*; *Traed Oer*; *Mefus yn y Glaw*; *Wal* a *Llyfr y Flwyddyn*.

Dw i hefyd wedi ysgrifennu dwy gyfrol ar *Lythyrau'r Wladfa* ac wedi golygu cyfrolau dwyieithog: *Cofiwch Dryweryn* ac *Annibyniaeth/ Independence*.

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r nofel? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?**
Daw syniadau o'r llefydd rhyfeddaf. Mae'n syndod gymaint o straeon am gasineb tuag at ferched sydd ar y newyddion yn ddyddiol. Bron iawn ein bod wedi dod i dderbyn y casineb hwn fel norm. Mae'r straeon yma wedi dylanwadu'n fawr ar un o brif themâu'r nofel.

Roeddwn i eisiau ysgrifennu nofel am lên-ladrad ac roedd gweld hanes trychineb Tŵr Grenfell ar y newyddion hefyd yn sbardun i fynd â'r stori i gyfeiriadau newydd.



**Pa fath o berson yw'r prif gymeriad?**
Dyn sy'n dioddef o genfigen ddwys tuag at ei wraig ddawnus. Nid yw'n fodlon o gwbl ei fod yn gorfod byw yn ei chysgod. Mae ei agweddau at ferched yn rhai sarhaus. Mae'n ddyn sy'n gweld merched fel bodau eilradd i ddynion.

**Faint o ddychan sy yn y nofel? Oes digon o ddychan yng Nghymru?**
Mae cryn ddychan yn y nofel tuag at y byd cyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dynion adain dde siofinistaidd yn cael eu dychanu ynddi. Mae'r nofel yn fwriadol ddi-chwaeth. Yn draddodiadol, dw i'n meddwl ein bod fel Cymry ofn defnyddio dychan gan ein bod ni'n genedl fach sydd yn adnabod ein gilydd. Mae dychan hefyd yn anodd i'w drin yn llwyddiannus, ond roeddwn i'n awyddus i roi tro arni. Amser a ddengys a yw fy ymgais yn llwyddiant ai peidio.

**Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?**
Mae'r ddau cyn bwysiced â'i gilydd, ond y cymeriad fel arfer sy'n arwain y plot wrth i mi ysgrifennu. Ond does dim diben cael cymeriad difyr oni bai bod y stori yn un sy'n gafael.

**Beth oedd proses sgrifennu *Llyfr y Flwyddyn*? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?**
Mae'r broses o ysgrifennu nofel yn aml iawn yn golygu deffro ynghanol nos i wneud nodiadau. Daw'r syniadau a'r geiriau yn aml iawn yn y cyfnod rhyfedd hwnnw rhwng cwsg ac effro. Mater o hunanddisgyblaeth ydi hi wedyn i ymrwymo a buddsoddi llawer o amser i'r dasg o ysgrifennu yn fy stydi. Yr her fwyaf ydi dod o hyd i ddigon o amser a chael y llonydd i fwynhau'r broses. Mewn byd delfrydol, fe hoffwn ysgrifennu'n llawn amser ond, yn anffodus, dydi'r gwaith ddim yn talu digon i alluogi fi i wneud hynny!

**Beth sy'n gwneud stori dda?**
Mae llawer o elfennau sy'n creu stori dda. Fel arfer, mae awdur dan bwysau confensiwn i greu prif gymeriad y gall y darllenydd uniaethu neu gydymdeimlo efo fo neu hi. Yn achos *Llyfr y Flwyddyn*, dw i wedi mentro herio'r confensiwn drwy greu cymeriad atgas ac yn gobeithio na fydd y darllenydd yn uniaethu nag yn cydymdeimlo efo Robin Richards!




Wedi dweud hynny, mae pawb wedi dioddef o genfigen ar ryw adeg neu'i gilydd a waeth i ni fel Cymry ddim smalio nad oes dynion mysoginistaidd fel Robin yn bod yn y Gymru sydd ohoni! Fy ngobaith i efo'r nofel ydi bod y darllenydd eisiau gweld sut mae'r stori'n datblygu er mwyn diwallu'r angen i weld cwymp y prif gymeriad. Y darllenydd gaiff farnu a ydi'r stori'n gafael ddigon i'w hystyried yn stori dda.

**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**
Pan dw i wedi cael gafael ar syniad, yna dw i'n tueddu i ysgrifennu bob munud rhydd er mwyn cadw'r momentwm i fynd. Ar adegau felly, mae ysgrifennu'n gallu troi'n obsesiwn i mi.

**Beth yw eich barn am stad y nofel yng Nghymru?**
'Dan ni'n ffodus iawn o gael tomen o nofelwyr gwirioneddol dalentog yng Nghymru. Bron iawn y gellid dweud bod yna nofel wych yn cael ei chyhoeddi'n fisol yma. Dw i wedi mwynhau pob nofel Gymraeg sydd wedi ei chyhoeddi'n ddiweddar. Fedra i ddim dweud hynny am bob nofel Saesneg!

**Pwy yw eich hoff nofelydd? Pam?**
Mae gen i lawer. Ond os oes rhaid i mi ddewis un, mae Aled Jones Williams yn ffefryn.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Darllen, darllen, darllen.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
Darllen.

**Beth sy'n eich gwylltio?**
Pobl sy'n hwyr!

**Beth sy ar y gweill?**
Mae gen i syniad yn cronni, ond dydi o ddim wedi datblygu hanner digon i mi fod wedi cyrraedd y pwynt o eistedd lawr a dechrau ysgrifennu! Does gen i ddim syniad pryd y daw'r amser hwnnw eto, ond pan ddaw o, mi fydda i yn fy stydi!

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Cinio dydd Sul efo grefi trwchus a glasied o win coch Ffrengig.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Darllen.

***Llyfr y Flwyddyn*, Gwasg y Bwthyn, £9**
**Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781913996635&tsid=3**

# Ysgol Creigiau

**Canolfan Ddarganfod Cilfynydd**
Aeth disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 i ymweld â Chanolfan Ddarganfod Cilfynydd. Ymwelon nhw â'r Gwaith Trin Gwastraff a darganfod sut mae dŵr gwastraff yn cael ei lanhau, ei drin a'i ddychwelyd yn ddiogel i'r amgylchedd. Bydd y profiad yma'n cefnogi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang, gyda dealltwriaeth o gynaliadwyedd a'i effaith ar y gymuned leol. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr.


Blwyddyn 5 yng Nghilfynydd

**Cenin Renewables**
Aeth disgyblion Class 6 a Dosbarth 6 ar ymweliad i Cenin Renewables ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dysgon nhw am ynni adnewyddadwy a chawsant wybod am yr ynni sydd yn cael ei greu gan Dyrbinau Gwynt a Ffermydd Solar. Fe ddysgon nhw nifer o ffeithiau diddorol a gwnaethon nhw fwynhau'r profiad newydd yn fawr.


Dosbarth 6 yn Cenin Renewables

**Cwrs Cymorth Cyntaf ac Iaith Arwyddo**
Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ffodus iawn i gael Cwrs Cymorth Cyntaf yn ddiweddar. Cawsant gyfle hefyd i gymryd rhan mewn sesiynau Iaith Arwyddo. Roedd pob un wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi mwynhau'r profiadau'n fawr.

**Eisteddfod Caerdydd**
Bu Gwen, Dosbarth 3, yn cystadlu yn Eisteddfod Caerdydd. Hi oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth llefaru ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2 i 4. Llongyfarchiadau mawr i ti, Gwen!



**Swyddog Diogelwch y Ffordd**
Daeth Aled Forster a Germaine Welsh, Swyddogion Cefnogi Diogelwch Ffyrdd o Gyngor Caerdydd, i gyflwyno hyfforddiant Cerddwyr Craff i ddisgyblion Dosbarth 6.

**Diwrnod Di-blastig**
Buom yn dathlu Diwrnod Di-Blastig yn yr ysgol drwy wisgo mewn gwyrdd. Cynhaliodd pob dosbarth arolwg i weld faint o bethau/gwrthrychau plastig sydd ganddynt yn y dosbarth a pha bethau y gellir eu newid heb ormod o gost a thrafferth.


Dosbarth 4 yn gwisgo gwyrdd ar Ddiwrnod Di-Blastig

**Wythnos Iechyd Meddwl Plant 2023**
Yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant bu disgyblion CA2 yn mwynhau cymdeithasu trwy wario amser gyda'i gilydd yn paratoi a choginio crempogau. Diolch yn fawr i Mrs Cornwall am drefnu'r sesiynau a chefnogi'r disgyblion.

**Ymweld â Renishaw**
Fe ymwelodd disgyblion Class 6 a Dosbarth 6 â Renishaw. Cawsant gyfle i ddefnyddio eu sgiliau codio i symud car o amgylch trac. Mwynheuon nhw'r profiadau'n fawr.

**Gwisgwch Goch i Felindre**
Ddydd Gwener, Chwefror 10fed, cefnogon ni 'Gwisgwch Goch i Gymru a Felindre'. Casglon ni £486.62 i'r elusen. Gwych!


Dosbarth 3 yn gwisgo Coch i Felindre

**Cyfarfod â Llywodraethwyr ein Hysgol**
Nos Fawrth, 7fed Chwefror, daeth 16 o ddisgyblion Blwyddyn 6 i'r ysgol am 6.30yh i fynychu Cyfarfod y Llywodraethwyr. Roedd aelodau pob pwyllgor ysgol yn bresennol - Cyngor Ysgol, Eco, Pwyllgor Lles, Arweinwyr Hawliau Plant, Arweinwyr Grwp SNAG, Criw Cymraeg ac Arweinwyr y Siarter Iaith. Siaradodd pob un yn glir ac yn wybodus am y gwaith maent wedi bod yn gwneud yn yr ysgol yn ddiweddar. Roedd y Llywodraethwyr yn canmol eu proffesiynldeb ac yn rhyfeddu at eu


Disgyblion yn cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr

haeddfedrwydd a'r gwaith da roedd pob pwyllgor yn gwneud yn yr ysgol. Arbennig bawb!

**Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd**
Ddydd Iau, 16eg Chwefror, aeth 38 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 i gystadlu yn Nhwrnamaint Pêl-droed yr Urdd yng Nghaerdydd. Chwaraeodd pawb yn wych gyda Tîm A y Bechgyn yn colli 2-1 mewn amser ychwanegol yn y rownd gyn-derfynol. Gwych bawb! Diolch i Mrs Hussey, Mr Evans, Mr Williams a Mrs Sims am fynd â'r disgyblion a'u hyfforddi.


Tîm y merched yn mwynhau Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd


Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd

**Gwasanaeth Tân**
Yn ddiweddar ymwelodd pedwar ymladdwr tân o Orsaf Dân Yr Eglwys Newydd â'r ysgol. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 5 ran mewn sesiynau yn edrych ar ddiogelwch tân. Ymatebodd y disgyblion yn hyderus ac yn synhwyrol wrth drafod peryglon tân a rôl y gwasanaethau achub. Diolch i Tom, Katie, Daniel a Thomas am ymweld â ni.


Dosbarth 2 yn mwynhau sesiwn y Gwasanaeth Tân

# 40 Mlynedd o Rygbi Rhyngwladol ar S4C

### Huw Llywelyn Davies

Ddeugain mlynedd cwmws nol i'r penwythnos hwn oedd y diwrnod mawr. Y dyddiad - Chwefror 5ed 1983 - Cymru yn erbyn Lloeger yn gêm gynta'r tymor i'r Cryse Cochion ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad. Doedd y gobeithion ddim yn uchel - er nad oedd Lloegr wedi ennill yng Nghaerdydd ers 20 mlynedd. Ond nhw oedd y ffefrynne clir. Roedd rygbi Cymru ar drai, a dyddie disglair y 1970'au yn ddim ond atgof erbyn hynny. Roedden nhw wedi rhannu'r llwy bren y tymor blaenorol ar ôl colli gêm ola'r tymor yn erbyn yr Alban o 34-18 - colli gartre yn y Bencampwriaeth am y tro cynta er 1968.

Cafwyd trawsnewid felly. John Bevan cyn faswr Aberafan a Chymru'n dod yn hyfforddwr yn lle John Lloyd, a Gareth Davies nid yn unig yn colli'r gapteiniaeth ond yn colli ei le yn y tîm gyda Malcolm Dacey'n dod mewn yn faswr, a'r diweddar Eddie Butler yn arwain ei wlad am y tro cynta yn y gystadleuaeth. Serch hynny, gellid teimlo'r cyffro arferol wrth baratoi i gwrdd â'r hen elyn. Ond, gwaetha'r modd, digon di fflach oedd y gêm, y safon yn eitha cyffredin, a'r naill dîm na'r llall yn rhy fodlon ar y diwedd gan iddi orffen yn gyfartal - tri phwynt ar ddeg yr un. Doedd e ddim yn brynhawn i'w gofio i'r chwaraewyr na'r cefnogwyr.

Ond i un criw bach ohonon ni yn y stadiwm y diwrnod hwnnw roedd e'n brynhawn arbennig iawn; yn achlysur hanesyddol, yn garreg filltir nodedig - sylwebaeth fyw ar gêm rygbi ryngwladol am y tro cynta erioed yn y Gymraeg, a hynny ar Sianel newydd S4C. Roedd termau Cymraeg i'r gêm wedi cael eu hen sefydlu ers degawde, ers i griw o athrawon yng Nghaerdydd nôl yn y 1930au gynnig mynd â bechgyn yn ysgolion cynradd y ddinas i ymarfer a chware rygbi ar Gaeau Llandaf os bydden nhw'n barod i ddysgu rhywfaint o Gymraeg yn y gwersi.

Roedd yr ymateb yn dda, ond wrth gwrs y termau yn Saesneg, a'r penderfyniad naturiol felly oedd bod eisie bathu terme Cymraeg ar gyfer y bechgyn a dyna ni'n clywed geirie fel mewnwr a maswr, cefnwr a bachwr, cais, trosgais, yr ystlys a chic adlam am y tro cynta. O dipyn i beth gwelwyd y terme newydd yma'n ymddangos mewn ambell i erthygl yn Y Cymro a'r Faner; yn cael eu defnyddio mewn adroddiade ar y gêm ar Nos Sadwrn ar y radio; o 1979 mlân roedden nhw'n cyfoethogi sylwebaethau byw ar gemau clwb a rhyngwladol ar wasanaeth newydd Radio Cymru.

Ond, roedd cael sylwbaeth Gymraeg ar y teledu yn gam enfawr arall ymlaen. Heb os roedd na gyffro wrth edrych mlân, nerfusrwydd hefyd a fydde'r darllediad yn mynd yn iawn. Cyn-gapten Cymru Onllwyn Brace odd Pennaeth yr Adran ac rodd hi'n dipyn o fraint i fi fod wrth y meicroffon ar gyfer yr achlysur. Ac yn bartner - Grav - yr annwyl Ray Gravell - mor boblogaidd gan bawb, cymaint o gymeriad; y dewis delfrydol i geisio



sicrhau derbyniad ffafriol i'r darllediad. Ac i fi, hanes Grav cyn y gêm yw'r atgof penna am y diwrnod. Rodd e'n chware dros Gymru y tymor blaenorol, ac yn teimlo i radde falle'i fod e'n dal yn rhan o'r tim!! Mynnu ein bod ni'n dau'n cwrdd yng Ngwesty'r Angel - lle'r odd y tîm yn aros. Chwilio am y chwaraewyr; cymysgu gyda'r cefnogwyr yn y cyntedd gan lofnodi sawl rhaglen cyn croesi'r hewl at y Stadiwm.

Codi ei law at y dorf; ac yna gweld caban pren mawr y tu ol i'r pyst lle'r oedd criw rhaglen Grandstand yn darlledu, a sylweddoli bod Bill Beaumont - ei gapten ar daith y Llewod yn Ne Affrica ym 1980 - yn y stiwdio. Finne'n dweud bod yn well i ni fynd yn syth at ein pwynt sylwebu ni gan fod amser yn mynd yn ei flaen. Ond na - Grav yn benderfynol o fynd draw i chwifio drwy'r ffenest at Beaumont. Finne felly'n cyrraedd y pwynt sylwebu ar fy mhen fy hunan ac Onllwyn ddim yn hapus o gwbwl gyda Grav. Chwarter awr; ugain muned yn mynd heibio, a dal dim sôn amdano. Onllwyn erbyn hyn yn benwan - "mae e'n mynd i gael y sac cyn dechre" oedd y sylw!!

Ond yna wrth iddo wasgu gwahanol fotyme ar ein set deledu ni, pwy ymddangosodd yn sydyn ar y sgrin, yn Stiwdio Grandstand gyda Bill Beaumont? Ie - Raymond William Robert Gravell yn trafod ac edrych mlân at y gêm a'r achlysur!! Onllwyn yn fwy crac fyth, yn enwedig gan fod amser cic gynta'r gem yn agosáu. Roedd e'n barod â'i ddarlith a'i bryd o dafod - ond yna - y drws yn agor, Grav yn cyrraedd fel corwynt a chyn i'r pennaeth gael cyfle i weud dim byd, dyma fe'n cyhoeddi â'i lais yn byrlymu, "Onkers, Onkers - I've been telling the world that we're starting on S4C today!!" Rodd rhaid i Onllwyn wenu, doedd dim pryd o dafod, a chas Grav ddim mo'r sac!!

Ie, dyna'r dechre ac yn raddol dros y blynyddoedd fe ddaeth y byd yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg a Sianel S4C. Darllediadau cyson o gemau'r clybie, y rhanbarthe a'r tim cenedlaethol yn y gwahanol gystadlaethau yn Ewrop. A chyda theithie Cymru a'r Llewod, a hefyd Cwpan y Byd rodd y Gymraeg i'w chlywed ar feysydd rygbi ym mhedwar ban - O Seland Newydd i'r Ariannin, Gogledd America, Canada ac Ynysoedd Môr y De, Awstralia a Gwledydd Affrica.

Y fesen fach honno a blannwyd gan y criw athrawon ar Gaeau Llandâf nôl yn y 1930au wedi tyfu'n goeden gref, gadarn, a'r terme Cymraeg ac S4C yn hawlio'u lle ochor yn ochor â chwmnïau darlledu mwya'r byd. A mantes fawr i'r gwasanaeth wrth gwrs fu'r ffaith bod cymaint o'r chwaraewyr gore ar hyd y blynyddoedd, y sêr mwya yn siarad yr iaith a bod cael bois fel Gareth Edwards, Jonathan Davies, Ieuan Evans, Shane Williams, George North a chymaint mwy yn cynnal cyfweliade a lleisio'u barn yn rhoi statws arbennig a hygrededd i'r darlledu, nid yng Nghymru yn unig, ond ar draws y byd.

(Erthygl ymddangosodd gyntaf yn Rhaglen gêm rhyngwladol Cymru v Iwerddon yn Chwefror 2023.)

# O'r Senedd

## Neges gan Heledd Fychan AS

Er yn fis byr, bu mis Chwefror yn fis prysur yn y Senedd a ledled yr ardal.

Fel y bydd pob darllenydd yn ymwybodol, mae'r argyfwng costau byw yn parhau i bery pryder i nifer fawr o bobl.

Diwedd Ionawr, cynhaliais ddigwyddiad rhwydweithio costau byw yng Nghlwb y Bont ar gyfer sefydliadau cymunedol sy'n gweithio'n galed i gefnogi pobl. Roedd hwn yn gyfle pwysig i drafod effaith prisiau cynyddol ar fywydau pobl ac i drafod sut y gallwn gydweithio i sicrhau fod pawb yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Y neges yr hoffwn ei gyfleu ichi ydi i beidio dioddef mewn tawelwch ac os oes angen cymorth arnoch, i ddod i gysylltiad. Mae fy manylion cyswllt ar waelod yr erthygl, a byddaf i a fy nhîm yn barod iawn i helpu.

Mater arall sydd wedi pryderu nifer ydi'r ansicrwydd ynglŷn â dyfodol gwasanaethau bws lleol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymestyniad o dri mis i'r cynllun cymorth i gwmnïau bysiau, ond mae'n glir o siarad gyda'r cwmnïau eu bod yn pryderu am fedru cynnal gwasanaethau pan ddaw'r cymorth hwnnw i ben. Fe wnes i'r achos yn gryf iawn yn y Senedd ynglŷn â phwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau bws yn ein hardal ar gyfer y rhai sydd heb fynediad at geir, a hefyd fel rhan o'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd. Byddaf yn parhau gyda'r ymgyrch hon tan fydd datrysiad.

I'r darllenwyr sydd gyda diddordeb mewn hanes, byddwch yn falch o glywed bod hanes Cymru bellach yn rhan hanfodol o Gwricwlwm newydd Cymru diolch i'r cytundeb cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru. Mae'n warth o beth ei fod wedi cymryd 24 mlynedd ers sefydlu ein Senedd ein hunain i gyflawni hyn, ond mae hwn yn gam pwysig ymlaen i unioni'r diffyg fu am ddegawdau. Mae'n hanfodol bwysig fod pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu hanes eu gwlad eu hunain - y da a'r drwg - fel rhan o'u datblygiad.

Fel bob amser, mae croeso ichi gysylltu os hoffech drafod rhywbeth neu dderbyn cymorth: Ebost:

Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
Rhif y Swyddfa: **01443 853124**
www.heleddfychan.cymru

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

### BROWN NEU COCH?




Yn 2022 gwelodd yr awdur Felicity Cloake awgrymiad diniwed wnaeth mewn erthygl yn dod yn ddadl wresog yn y cyfryngau. Ni sylweddolodd cyn hyn cryfder y teimladau fyddai'n eu codi am ei syniad o ddisodli sôs coch neu frown traddodiadol wrth iddi argymell fod marmalêd yn gyfwyd da ar gyfer brechdanau cig moch!

Nid yw poblogrwydd cael saws fel cyfwyd ar yr ochr i gyd-fynd â bwydydd yn beth diweddar ym Mhrydain; 200 mlynedd yn ôl argymhellodd Byron y dylai ymwelwyr â'r cyfandir fynd a sawsiau coch, soi a finegr tsili gyda nhw i ychwanegu i stiwiau diflas oedd yn cael eu gweini yn ystod y Grawys.

Dywed Nigella Lawson nad yw hi'n teithio heb diwb o fwstard yn ei bag llaw ac mae'r gohebydd John Simpson yn mynd a photel o Tabasco wrth deithio i barthau gwrthdaro.

Damcaniaeth Felicity Cloake yw bod ein cariad at flasau cyfwydydd cryf yn deillio o'r ymgais i fwydydd plaen traddodiadol Prydeinig fod yn fwy diddorol. Mae'r cynnydd mewn mewnforio bwydydd o dramor a dylanwadau'r Ymerodraeth Brydeinig i'w gweld yn amlwg yn yr arbrofion gyda blasau newydd drwy'r oesoedd gan gynnwys cynhwysion i ddefnyddio i wneud sawsiau parod i weini gyda'n bwydydd.

Cymerwch ein ffefrynnau, y sôs coch a'r un brown, fel enghreifftiau o hyn. Mae sôs coch Heinz yn parhau i fod yn un o sawsiau bwrdd mwyaf poblogaidd Prydain. Mae'n bosibl bod y gair 'ketchup' wedi dod o air tafodiaith ardal Amoy yn Tsieina am saws pysgod wedi'i eplesu, neu'r gair Malai 'kecap'. Yn wreiddiol, daeth 'ketchup' mewn amrywiaeth o flasau gan gynnwys wystrys, lemwn a chnau Ffrengig. Ond James Mease, gwyddonydd o Philadelphia, sy'n cael y clod am ddatblygu'r rysáit sy'n cynnwys tomatos. Cyn i finegr ddod yn gynhwysyn safonol, roedd cadw sawsiau tomato yn broblem, oherwydd byddai'r ffrwythau'n dadelfennu'n gyflym. Cyflwynodd cwmni cymharol newydd o'r enw Heinz ei fformwleiddiad enwog ym 1876, a oedd yn cynnwys tomatos, finegr distyll, siwgr brown, halen a sbeisys amrywiol. Fe wnaethon nhw hefyd arloesi gyda'r defnydd o boteli gwydr, fel bod cwsmeriaid yn gallu gweld beth roedden nhw'n ei brynu.

Prif gynhwysyn saws brown hefyd yw tomatos, ac mae'r ddau saws hefyd yn rhannu cynhwysion eraill - finegr, siwgr, halen a sbeisys. Y prif wahaniaeth yw'r cynhwysion a ddefnyddir mewn saws brown i roi blas unigryw iddo - triagl, datys a thamarind (ffrwyth Affricanaidd).

Datblygwyd y brand saws brown mwyaf nodedig gan berchennog siop groser o Nottingham, Frederick Gibson Garton ym 1896; dywedodd iddo gymryd yr enw 'HP' o Dŷ'r Senedd yn Llundain, lle honnwyd fod y saws yn boblogaidd iawn. Ym 1903 gwerthodd Garton y rysáit a brand HP am y swm o £150, i setlo biliau heb eu talu, i Edwin Sampson Moore, sylfaenydd y Midlands Vinegar Company (rhagflaenydd bwydydd HP). Daeth HP Sauce i gael ei adnabod fel "Wilson's Gravy" yn y 1960au a'r 1970au ar ôl y Prif Weinidog Llafur, Harold Wilson. Cododd y cysylltiad hwn yn dilyn cyfweliad a roddwyd gan ei wraig lle honnodd fod Harold "yn boddi popeth gyda saws HP".

Erbyn hyn mae 'na lu o amrywiadau ar gael o'r ddau saws ac mae gen i, fel llawer ohonoch chi, sawl un yn yr oergell. Rwy'n arbennig o hoff o'r fersiynnau 'Bloody Mary' a garlleg du o saws tomato a wnaed yn Sir Fôn. Ond mae'n rhaid cael potel o saws brown yno hefyd ar gyfer brechdan selsig!

Ond beth am weddill y boblogaeth? Mewn arolwg yn 2022 gan Waitrose datgelwyd mai sôs coch yw cyfwyd mwyaf poblogaidd y genedl a'r dewis gorau wedi'i baru â brechdan bacwn neu sglodion, gyda 37% yn dweud eu bod yn ei fwynhau fwyaf. Gydag ychydig dros draean ohonom yn storio rhwng pump a chwe jar o wahanol gonfennau yn eu hoergelloedd, mayonnaise yw'r ail ffefryn. Darganfuwyd hefyd y gall gwahaniaethau rhwng cenedlaethau a daearyddol ddylanwadu'r dewis. Saws brown yw'r dewis mwyaf poblogaidd yng Ngogledd Lloegr a'r Alban, tra bod coch yr un gorau yn Ne a Chanolbarth Lloegr a Chymru. Mae dewisiadau'r genhedlaeth iau yn amrywio rhwng mayonnaise garlleg, saws chilli melys, saws poeth a saws barbeciw. Mae'n ymddangos hefyd fod confennau mwy sbeislyd yn cynyddu mewn poblogrwydd; mewn arolwg yn 2021 ymddangosodd Wasabi, Chimichurri, Piri Piri a Harissa ynghyd a Sriracha (saws poeth sy'n cynnwys pupurau tsili, finegr, garlleg, siwgr a halen) ar y rhestr o'r deg uchaf ar y rhestr o sawsiau poblogaidd. Datgelwyd rhai o gyfuniadau mwy anarferol y genedl hefyd gyda 12 y cant yn dweud eu bod yn rhoi sôs coch ar ginio rhost, 18 y cant yn taenu saws barbeciw ar bitsa oer, wyth y cant yn rhoi saws mint ar gyri ac un ar ddeg y cant yn taenu mayonnaise ar eu tost. Tybed beth yw eich hoff ddewis a defnydd chi?

Os oes gennych sawsiau heb eu defnyddio yn eich oergell ceisiwch eu defnyddio i roi blas ar fwydydd. Dyma rai syniadau -

Sôs coch mewn marinâd ar gyfer cyw iâr felys a sur neu olwythion porc; ragu selsig, torth briwgig.

Mayonnaise mewn saws ar gyfer kebabs, i wneud saws Tartare a saws garlleg, mewn brownies siocled, mewn 'dip' gyda llysiau amrwd.

Sôs brown gyda chwrw sinsir ar gyfer porc, mewn peli cig a byrgyrs, i wneud grefi sbeislyd gyda selsig, gyda ffa pob.

Saws rhuddygl poeth - gyda hufen sur mewn tatws pob, mewn dresin ar gyfer salad, gyda hummus, gydag wyau wedi potsio neu sgramblo.









Dyma un o'm hoff rysetiau syml ond blasus gan Mary Berry sydd mewn llyfr coginio gyhoeddwyd yn 1981!

Defnyddio cymysgedd o 4 llwy fwrdd mêl clir, 2 lwy fwrdd saws soi, 1 llwy fwrdd sôs coch, 1 llwy fwrdd finegr, 1 llwy fwrdd piwre tomato, ychydig ddafnau o saws Tabasco, sudd 1 oren, halen a phupur i orchuddio 4 golwyth porc. Coginio mewn dysgl bas am 40 munud ar Nwy 5/190°C. Gweini gyda reis brown neu pasta a llysiau gwyrdd.



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Mawrth 2023:**
1 Mawrth (bore Mercher) - Oedfa Gŵyl Ddewi (am 9:30 a.m.)
5 Mawrth - Gŵyl Ddewi yng ngofal yr Ysgol Sul (a Chymun.)
12 Mawrth - Sul y Cyfundeb: Oedfa a gweithgarwch yng Nghanolfan yr Urdd yn y Bae
19 Mawrth - Oedfa dan ofal Delwyn Siôn
26 Mawrth - Oedfa Ardal yng ngofal aelodau Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf

**Mis Ebrill 2023:**
2 Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
7 Ebrill – Oedfa Bore Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)
16 Ebrill – Taith Gerdded
23 Ebrill – Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen
30 Ebrill – Oedfa dan y Parchedig Jeff Williams

---oooOOOooo---

Dim ond un digwyddiad sydd wedi llenwi ein newyddion ers bore Llun cyntaf mis Chwefror eleni, boed hynny ar lun, sain neu mewn print - y daeargrynfeydd nerthol a darodd ardal y ffin rhwng de Twrci a gogledd Syria.

Deffrodd y mwyafrif ohonom o'n trwmgwsg ar fore'r 6ed o Chwefror i'r newyddion bod daeargryn o faint 7.8 ar raddfa Richter wedi taro'r ardal honno.

Rhyw naw awr yn ddiweddarach fe darodd daeargryn arall, maint 7.5 ar raddfa Richter, yr un ardal, a byth ers hynny mae nifer o ôl-gryniadau yn dal i ysgwyd y tir.

Fel yr ysgrifennaf y pwt yma i Tafod Elái, amcangyfrifir bod 41,000 o bobl wedi eu lladd yn y gyflafan, a nifer mawr wedi eu hanafu (nodwyd ffigwr o 51,900+ hyd yma).

A chynyddu a wnaiff y rhif cyntaf yna fel y bydd y dyddiau a'r wythnosau nesaf yma yn mynd heibio, o ystyried y dinistr anhygoel a welir o'r ardal a ddioddefodd, gydag adeiladau dirifedi yn ymddangos fel mynyddoedd o rwbel mewn anialwch o goncrit.

Mae'r rhai sydd wedi goroesi'r danchwa bellach yn wynebu gaeaf rhewllyd ar y stryd, heb gysgod, heb fwyd, heb ddŵr glan, a hynny yn ei dro yn cynyddu'r perygl o afiechydon megis colera a'i debyg ymysg y boblogaeth.

Wrth gwrs mae'r gwasanaethau dyngarol yn gwneud yr hyn a allant o fewn cyfyngiadau gwleidyddol anodd, a'r ymateb ym Mhrydain i apêl DEC wedi bod yn hael ryfeddol. Mae graddfa'r dinistr a adawyd gan y daeargrynfeydd yn golygu bod miliynau o drigolion yr ardal a effeithiwyd yn mynd i orfod byw ar y nesaf peth i ddim mewn cysgodfeydd dros dro am gryn amser i ddod.

Cofier bod dros 4 miliwn o boblogaeth gogledd Syria eisoes yn wynebu amgylchiadau byw anodd oherwydd y rhyfel cartref yn y wlad a'r erlid oedd arnynt – 3 miliwn ohonynt wedi gorfod ffoi o'u cartrefi – 80% ohonynt yn ferched a phlant.

Ie un argyfwng ar ôl y llall ydi bywyd wedi bod i'r trueiniaid hyn.

Ond gall pob rhodd gennym, pob gweithred, a phob gweddi gynnig gobaith iddynt.

Trwy'r gwasanaethau dyngarol, megis Cymorth Cristnogol, fedrwn ni ddim amgyffred y gellid, trwy gyflwyno rhodd bitw o £30, ddarparu blancedi i gadw chwech o bobl yn gynnes, neu y byddai rhodd o £100 yn ddigon i ddarparu lloches dros dro i bedwar teulu.

Mae straeon calonogol yn deillio o'r ymgyrch i achub bywydau, a chafwyd hanes am dair merch a dau o blant yn cael eu rhyddhau o'r rwbel wedi iddynt dreulio naw diwrnod heb ymgeledd.

Ychydig iawn o glywed straeon o'r fath fydd o hyn allan, ac mae'n amlwg bod y timau achub a anfonwyd gan y gwahanol wledydd ar y cychwyn bellach yn cadw eu hoffer a dychwelyd adref.

Dim ond y bobl leol fydd ar ôl wedyn i glirio'r llwch ac yn ceisio ymdopi â bywyd, o fath, wedi'r gyflafan.

Ac, wrth gwrs, mae'r sylw yn dechrau troi mwyach at bwyntio bys, gan, ac at, y gwladwriaethau, am esgeulustod, yn peidio sicrhau bod yr adeiladau wedi eu hadeiladu i safonau priodol, a llwgrwobrwyo, er ennill pleidleisiau mewn etholiad arlywyddol ac yn y blaen.

Gwelir adroddiadau yn rhai o'r cylchgronau technegol am arestio hyd at 100 o weithwyr cwmnïau adeiladu o Dwrci, gan eu cyhuddo o ddynladdiad oherwydd iddynt anwybyddu rheoliadau adeiladu'r wlad (a adolygwyd diwethaf yn 2018 wedi daeargrynfeydd yn 1999 a 2011).

[Er cydnabod bod nifer o'r 6400 adeilad a ddifrodwyd wedi eu codi cyn mabwysiadu'r rheoliadau, ymddengys mai dewis eu hanwybyddu a wnaed wedyn!]

Nodir yn ychwanegol ddefnydd o ddeunydd adeiladu israddol, cynllunio annigonol, a diffygion goruchwylio'r gwaith adeiladu, fel rhesymau dros faint y difrod a amlygwyd yn dilyn y daeargrynfeydd.

Amcangyfrifir bod difrod gwerth rhwng £28.8 biliwn a £41.2 biliwn wedi ei wneud o'r herwydd.

Ac yn siŵr i chwi, bydd gwledydd y gorllewin yn fwy na pharod, na, yn rhyfeddol o awyddus, i gynnig cymorth gyda'r ail-adeiladu hefyd!

Gadawn y gair olaf i aralleiriad o weddi ar wefan Cymorth Cristnogol, yn dilyn y ddaeargryn yn Nepal yn 2022:-

*"Beth petaent yn strydoedd cyfarwydd*
*i ni, Arglwydd?*
*Y palmant y cerddem ar ei hyd*
*yn ddyddiol wedi ei gracio;*
*Y ffyrdd y teithiem i'r gwaith ar fws*
*neu mewn car wedi eu difrodi;*
*Tweneli'r trên dan-ddaear y trafaeliem*
*arni wedi eu gwasgu;*
*Yr adeiladau lle y gweithiem, yr aem*
*iddynt i siopa, ac i addoli,*
*wedi eu dymchwel;*
*Y tai y trigem ynddynt, lle buom yn wylo,*
*ac yn caru, ac yn chwerthin*
*wedi eu dinistrio.*

*O Dduw, mae'n anodd i ni ddirnad,*
*I amgyffred a'r golygfeydd o alanast.*
*Ond, fe welwn ein brodyr a'n chwiorydd,*
*Ein cyd-ddyn, yn dioddef,*
*Deisyfwn arnynt gael eu hachub,*
*Eu hymgeleddu a'u hanwylo.*
*Deisyfwn iddynt gael eu gwella,*
*A'i gofid a'u galar gael ei gysuro,*
*Er rhoi iddynt eu dyfodol i'w adfer."*

Rh.G.J.

# Gwahoddiad i brofi gwyliau Cymraeg

Mae Llety unigryw yng nghanol tref Caernarfon wedi lansio gwefan newydd, gan gynnig cyfle i gwsmeriaid brofi lletygarwch Cymreig a Chymraeg dafliad carreg o Barc Cenedlaethol Eryri. Wedi ei leoli yn nghalon tref Gymreiciaf Cymru, mae Llety Arall yn barod am y tymor gwyliau ac yn falch o gynnig blas go iawn ar ddiwylliant lleol.

Wrth baratoi i groesawu gwesteion yn 2023, mae Llety Arall yn awyddus i gynnig profiad ar-lein gwell a'i gwneud hi'n haws i bobl archebu a dysgu am y lleoliad a'r ardal gyfagos.

Llety annibynnol yw Llety Arall sy'n cynnig arhosiad unigryw i westeion a'r cyfle i brofi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn uniongyrchol. Sefydlwyd y llety yn 2018 yn fenter gymunedol er budd y gymuned ac mae'n eiddo i'w haelodau.

Dywedodd Menna Machreth, cadeirydd Llety Arall: "Rydym yn falch iawn o lansio'n gwefan newydd ac yn hyderus y bydd yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei angen ar westeion i wneud y mwyaf o'u hamser yma gyda ni. Rydym yn annog cwsmeriaid i ymweld â'r wefan newydd ac i ddechrau cynllunio eu hymweliad."

Mae'r wefan yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion i roi cymorth i ymwelwyr ddysgu am Llety Arall a chynllunio aros yn nhref hanesyddol Caernarfon. Mae'r rhain yn cynnwys manylion ystafelloedd a chyfleusterau; gwybodaeth am y lleoliad ac atyniadau cyfagos, system archebu ar-lein hawdd a galeri i gynnig cipolwg o'r hyn sydd i'w ddisgwyl yn ystod arhosiad.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwefan Llety Arall - https://lletyarall.org/

# Y Ffliw Sbaenaidd

*Mae hanes Y Ffliw Sbaenaidd 1918 yn rhan bwysig o waith ymchwil PhD mae Charles Roberts yn paratoi. Mae'n gobeithio bydd yr erthygl yn ysgogiad i deuluoedd o'r fro gofio efallai am hanes teulu ddioddefodd o'r Pandemig ychydig dros ganrif yn nôl.*

Fel y gŵyr bob plentyn am y Pla du yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ac a fu'n gyfrifol am farwolaeth traean o boblogaeth Ewrop, prin yw'r sylw cafodd darn o hanes a elwir 'Y Ffliw Sbaenaidd'. Er iddo achosi llawer mwy o ddinistr na'r Pla Du a lladd bron i chwe gwaith y nifer a syrthiodd dros bedair blynedd yn y Rhyfel Mawr, gellir awgrymu mai cuddio tu ôl i gysgod y Rhyfel Byd Cyntaf fu ei hanes. I'w roi mewn persbectif collwyd 16 miliwn yn y Rhyfel Byd Cyntaf rhwng 1914 a 1918 ac mae nifer o farwolaethau o'r Pandemig ffliw dros y Byd rhwng Mawrth 1918 a Mawrth 1920 wedi ei amcangyfrif rhwng 50 a 100 miliwn. Nid yw'r ffigyrau yn ddibynadwy gan nad oedd ystadegau cymwys ar gael yn enwedig o Affrica a'r Dwyrain Pell. Yn gyffredinol mae ffliw yn lladd ar draws y Byd rhwng 250,000 a 500,000 yn flynyddol, drwy heintio'r henoed, yr oedd y Pandemig yma'n wahanol gan ei fod yn lladd gan fwyaf, oedran grŵp rhwng 18 a 45 oed.

Pam y Ffliw Sbaenaidd?
Bedyddiwyd y pla yn 'Ffliw Sbaenaidd' am y rheswm fod sensoriaeth ar newyddion ar hyd a lled Ewrop heblaw am Sbaen oherwydd ei niwtraliaeth yn ystod y Rhyfel Mawr. Canlyniad hyn oedd bod nifer o adroddiadau o Sbaen yn ymddangos yn y papurau newydd yn gyson am y teulu brenhinol ac aelodau o'r Llywodraeth yn dioddef. Hyd yn oed pan fu'r ffliw ar diroedd y Fflandrys a Champagne yn y Rhyfel Mawr am amser helaeth cyn cyrraedd Sbaen, penderfynodd llywodraethau Ffrainc, America a Phrydain ei alw yn 'Ffliw Sbaenaidd'. I raddau, er mwyn hebrwng cyfrifoldeb o darddiad y firws.

Cymru â chysylltiad Lerpwl.
Faint fu farw yng Nghymru? Mae'r ffigyrau yn amrywio yn nôl y ffynhonnell. Rhai yn awgrymu bod y ffigyrau rhwng naw mil a deg mil o farwolaethau, rhai haneswyr yn honni bod y ffigyrau yn agosach i unarddeg mil. I'w cymharu â ffigyrau Covid-19 mae'n weddol debyg, ond be sydd rhaid ystyried yw poblogaeth Cymru rhwng 1918 a 1919. Yn ystod y Pandemig yma 'roedd dros 600,000 yn llai o bobl yn byw yng Nghymru, sef 19% yn llai.

Fel dinas bwysig yr oedd Lerpwl yn fan cychwyn honedig i ymlediad y firws yng Ngogledd Cymru. Oherwydd symudiant poblogaeth gyson rhwng y blynyddoedd 1851-1911 ymfudodd ugain mil o Gymry i'r ddinas bob degawd. Bu llwybrau teithio yn brysur rhwng 'Prifddinas Gogledd Cymru' a Gogledd Cymru. Un ffactor yn ymlediad y firws yn 1918 oedd y brif reilffordd rhwng Caergybi a Lerpwl ac yn ogystal y rheilffyrdd i'r trefi llai poblog. Gyda'r boblogaeth yn teithio'n gyson ar gyfer gwaith a milwyr yn teithio i Ffrainc cafwyd cymysgedd o bobl oedd yn agored i'r firws.

Achos dioddefaint teulu.
Yn ardal Treffynnon yng Ngogledd-ddwyrain Cymru cafodd un teulu ei heffeithio'n fawr gan yr afiechyd. Er bod nifer o boblogaeth cefn gwlad y cyfnod yn manteisio ar diroedd dros yr Iwerydd, arhosodd teulu Hughes yn eu cynefin. Nid oes tystiolaeth benodol yn awgrymu bod aros yng Nghymru wedi achosi i deulu fferm *Gelli Fowler* ddioddef yn waeth o'r Ffliw Sbaenaidd gellir awgrymu yn hytrach bod yr ardal yma o Sir Y Fflint wedi dioddef yn enbyd. O ganlyniad, collodd teulu *Gelli Fowler* mam a phedwar o'i phlant i gyd o fewn pedwar diwrnod. Oedran y plant oedd rhwng 21 ac 8 mlwydd oed.

Drwy hanes llafar cofiodd un o wyrion deulu *Gelli Fowler* David Watkins hanes ei nain;

Dwi'n cofio fy Nain, Anne Jane Hughes yn sôn amdano bob blwyddyn ar Chwefror 19eg. Collodd fy Nain ei brodyr a chwiorydd heblaw am un chwaer. Yr oedd fy nheulu yn grefyddol iawn felly fuodd hyn yn ysgytwad mawr. Yr oedd brawd fy Nain, Robert Henry dal yn fyw wrth ochr ei brawd oedd wedi marw yn yr un gwely. Soniodd fy Nain ei bod wedi colli ei gwallt a dannedd ar ôl y ffliw. Rhoddodd fy Nain ei doli ym medd ei chwaer fach. Ychwanegodd bod y plant wedi methu mynychu angladdau'r brodyr a chwiorydd oherwydd eu salwch. Canlyniad y golled deuluol oedd gwerthu'r fferm, a'r plant yn cael eu magu gan weddill y teulu. Aeth nifer yn ddiweddarach i adael y fro ac i weithio mewn ffatrïoedd tecstilau yn Wigan.

Effaith hirdymor
Nid oes amheuaeth bod y Pandemig yn 1918 wedi cael effaith andwyol ar nifer fawr o deuluoedd. Rhai haneswyr yn honni bod 'bron bob tŷ wedi claddu rhywun annwyl'. Mae effaith tymor byr yn amlwg yn y ffigyrau a chyhoeddwyd yn fuan wedi'r Pandemig ddiflannu ar draws y byd tua chanol 1920. Dim oherwydd yr un brechiad ond i raddau '*Herd immunity'* yn ogystal â'r firws yn marw drwy'r cleifion.

Ond beth am yr effaith hirdymor? Mae effaith ar y teuluoedd uchod wedi aros yn y cof ac i raddau wedi newid cwrs eu bywydau. Ar raddfa genedlaethol a byd eang does dim amheuaeth mai hwn oedd y clefyd gwaethaf mewn dynoliaeth. Hyd yn oed yr effaith anuniongyrchol ar Yr Ail Ryfel Byd pan effeithiwyd ar ganlyniad Gytundeb Versailles. Mae haneswyr o'r farn bod Woodrow Wilson Arlywydd America yn 1919 ddim wedi llwyddo i leihau telerau cosb Yr Almaen wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd ei salwch (ffliw Sbaenaidd) ac felly bu cosb yr Almaen yn llym, a chanlyniad hyn oedd twf Natsïaeth.

Fel y Pla du mae digwyddiadau'r Ail Ryfel Byd yn rhan o gwricwlwm ysgolion, a gellir deall nad yw apêl y Ffliw Sbaenaidd yn darbwyllo 'na sbarduno Pwyllgorau Addysg. Fel yr awgrymodd Laura Spinney, '*bod niferoedd y bobl wnaeth farw ddim yn gwisgo lifrau milwr nac yn dangos anafiadau'*. Yn hytrach, er bod Pandemig 1918 yn weddol arwyddocaol i haneswyr yn enwedig ar ôl y saithdegau, mae dyfodiad Covid-19 wedi cynyddu yn sylweddol y diddordeb mewn hanes cymdeithasol, ac yn fwy perthnasol erbyn heddiw, hanes y Ffliw Sbaenaidd.

Charles Roberts

o.n
Os oes unrhyw un ar ôl darllen y darn uchod yn cofio hanes yn y teulu am y Ffliw Sbaenaidd mi fuaswn yn barod iawn i glywed gennych ar gyfer parhau fy ngwaith ymchwil. Fy nghyfeiriad ebost yw:
w.charles.roberts@hotmail.co.uk

# Rhagor am Lansio'r Eisteddfod

**(Parhad o dudalen 1)**

Mae Cadeirydd Eisteddfod 2024, Helen Prosser, yn edrych ymlaen at y digwyddiad, ac meddai, "Rydyn ni'n falch iawn i lansio Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf mewn gŵyl i'r teulu cyfan ddydd Sadwrn 4 Mawrth. Mae gennym ni raglen lawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau i bawb. Mae'r Eisteddfod yn ŵyl i bawb ac rydyn ni'n gobeithio y bydd ein digwyddiad yn Nhreorci yn gyfle i drigolion lleol glywed mwy am ein cynlluniau ac y bydd pawb yn awyddus i ymuno â'r gwaith trefnu dros y misoedd nesaf.

"Ein prif neges wrth i ni lansio'r prosiect yw fod yr Eisteddfod yn perthyn i ni i gyd, os ydyn ni wedi bod i'r ŵyl yn y gorffennol neu os ydyn ni eisiau clywed am beth sy'n digwydd yn Rhondda Cynon Taf y flwyddyn nesaf. Rydyn ni am i bawb ymuno â ni, yn ddysgwyr, siaradwyr Cymraeg hyderus a phawb sydd wedi colli cysylltiad gyd'n iaith ers yr ysgol neu sydd heb gael cyfle i ddysgu.

"Mae gennym ni ddigonedd o waith i'w wneud dros y deunaw mis nesaf, yn trefnu cystadlaethau, hyrwyddo'r ŵyl a chodi arian, ac rydyn ni eisiau i bobl o bob cymuned, pentref a thref ar draws y tri chwm i fod yn rhan o'r paratoadau. Dyma ein Eisteddfod Genedlaethol gyntaf ni ers 1956, felly rydyn ni am i'r prosiect a'r ŵyl fod yn wych er mwyn dangos i bawb beth sydd gennym ni i'w gynnig yma yn Rhondda Cynon Taf."

Ychwanegodd y Cynghorydd Rhys Lewis, Aelod Cabinet Addysg a'r Iaith Gymraeg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, "Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Rondda Cynon Taf yn 2024. Mae'r Eisteddfod i chi, i mi, i bob un ohonon ni. Mae 'na rywbeth i bawb yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024, ac rydyn ni eisiau i'n holl gymunedau fod yn rhan o'r hwyl, beth bynnag eu hoed, eu cefndir neu amgylchiadau.

# Ysgol Llanhari

**Eisteddfod Caerdydd**






Llongyfarchiadau i'r Côr Merched am ennill y gystadleuaeth yn Eisteddfod Caerdydd. Ardderchog!

**Chwaraeon**

Fel rhan o'n gwaith gyda'r Siarter Iaith, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cydweithio gydag ysgolion cyfagos i wella'u sgiliau pêl-droed a chyfathrebu'n Gymraeg. Cafwyd dwy gêm gyffrous o bêldroed yn erbyn Ysgol Llansannor a Llanharry.





Llongyfarchiadau mawr i Medi a Mali Jên ar berfformiadau ardderchog wrth gynrychioli Cymoedd Morgannwg dan 14 yn nhwrnament Pêl-rwyd Cymru.

Mae Cyngor yr Ysgol wedi bod yn brysur yn cydweithio gydag elusen RR81 i ddylunio cit newydd ar gyfer ein timau rygbi a phêl-rwyd uwchradd. Diolch o galon i elusen RR81 ac hefyd i Mrs Rubery am ddod i gyflwyno'r ffrogiau a'r crysau i'r disgyblion. Maen nhw'n edrych yn wych.





**Gweithgareddau Santes Dwynwen**

Diolch i ddisgyblion y chweched dosbarth am drefnu llu o weithgareddau yn yr ysgol, gan gynnwys gwerthu siocledi. Diolch hefyd i griw o flwyddyn 11 am y stondin gacennau. Am ffordd wych i ddathlu a mwynhau diwrnod nawddsant cariadon Cymru. Diolch am roi gwên fawr ar wynebau nifer o ddisgyblion.



**Cerdd**

Dros yr wythnosau diwethaf mae disgyblion o flwyddyn 3 wedi mwynhau gwersi ffidl a'r soddgwrth. Mae'n brofiad a chyfle gwych iddynt gael blas ar wersi offerynnol gwahanol. Diolch i wasnaeth cerdd Rhondda Cynon Taf am y cyfle.





**Dydd Miwsig Cymru**

Ar ddydd Miwsig Cymru, roedd cerddoriaeth Gymraeg i'w chlywed ar hyd y coridorau ac yn y dosbarthiadau gyda'r plant yn canu a dawnsio. Diolch i Hanna Lili am ddod i berfformio i'r disgyblion. Diolch i Menter Iaith Rhondda Cynon Taf am drefnu.










**Trosglwyddo Llanhari**

Braf oedd croesawu disgyblion blwyddyn 5 ein clwstwr ar ddechrau mis Chwefror. Roedd agwedd, ymddygiad ac ymroddiad pob un yn wych. Pleser mawr eich cael chi yn Ysgol Llanhari.





menter caerdydd

**Gweithgareddau'r Gwanwyn**
Ychydig yn hwyr efallai, ond Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi gyd. Gyda'r gwanwyn yn agosáu, rydyn ni'n dechrau troi ein sylw at ein gwyliau blynyddol – Gŵyl Fach y Fro yn y Barri (Sadwrn, 20 Mai) a Tafwyl (penwythnos 15 a 16 Gorffennaf). Byddwn hefyd yn lansio cyfres o deithiau cerdded misol dros fisoedd yr haf – beth am ddod gyda ni am dro yn yr awyr iach?

Dyma flas i chi o'r gweithgareddau sydd ar y gweill dros y mis i ddod:

**Plant**
Bydd SparkLab yn cynnal Gweithdy Gwyddoniaeth arall, brynhawn Llun, 13 Mawrth. Dyma fydd y gweithdy olaf am y tro yn Ysgol Pencae, gyda'r sesiynau'n symud i Ysgol y Berllan Deg o fis Ebrill.

Ydych chi erioed wedi gweld bisgedi ar siâp llwy garu? Dyna fydd ar y fwydlen i'r cogyddion ifainc yng nghegin Cookstars prynhawn Sadwrn, 25 Mawrth. Bydd y gweithdy, a gynhelir yn Neuadd Eglwys St Peters, Y Tyllgoed, yn siŵr o fod yn boblogaidd felly cofiwch gofrestru o flaen llaw!

**Addysg Oedolion**
Wedi hanner tymor, bydd llond llaw o gyrsiau Addysg Oedolion newydd yn dechrau. Ydych chi ffansi rhoi tro ar wersi gwnïo, codi pwysau, crochenwaith neu gyfieithu ar y pryd? Ewch draw i'n gwefan i archebu'ch lle neu cysylltwch â Gwenno am sgwrs! (gwenno@mentercaerdydd.cymru)

**Sgwrs y Mis**
Dr Marion Loeffler fydd yn cyflwyno Sgwrs y Mis, nos Iau, 30 Mawrth ar Zoom. 'Penodau Tywyll yn Hanes y Waun Ddyfal a Mynydd Bychan' yw'r testun dan sylw. Mae'r sesiwn yn rhad ac am ddim. Cofiwch gysylltu os nad ydych yn derbyn y ddolen Zoom yn fisol. (rachel@mentercaerdydd.cymru)

**Mewn Tiwn**
Ymunwch â ni yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina am baned a chyngerdd anffurfiol fore Llun ola'r mis (27 Mawrth) am 11.30. Yn perfformio y tro hwn bydd y delynores Bethan Semmens, sy'n rhan o gynllun Live Music Now Cymru ac mae'r cyfan yn rhad ac am ddim!




**Siaradwyr Newydd**
Cofiwch am ein bore coffi misol ar Zoom – Gwener, 31 Mawrth am 10.30. Edrychwn ymlaen at fwy o sgwrsio difyr ar ddiwedd y mis! Byddwn hefyd yn lansio sesiynau **Cerdded a Chlonc** – bob bore Iau cynta'r mis dros yr haf - i siaradwyr Cymraeg o bob lefel. Cawn gyfle i grwydro'n hamddenol gyda'r pwyslais ar y siarad yn hytrach na'r cerdded! Parc Bute fydd lleoliad y cyfarfod cyntaf – ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: 029 2068 9888**

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Dawn Walters*

**Kathleen Thomas (1929-2022)**
Gyda thristwch derbyniodd trigolion Gilfach Goch y newyddion am farwolaeth Mrs. Kathleen Thomas cyn y Nadolig. Roedd Kathleen yn wraig i'r diweddar Morswyn Trevethin Thomas, Gilfach Goch, merch-yng-nghyfraith y diweddar John Haydn Thomas ac Ethel Thomas. (Roedd John Haydn Thomas yn gyn-gadeirydd Cyngor Sir Morgannwg Ganol ac yn gadeirydd bwrdd llywodraethwyr Ysgol Gyfun Rhydfelen am nifer o flynyddoedd.) Roedd Kathleen yn chwaer-yng-nghyfraith gariadus i'r diweddar Miss Mair Thomas (cyn-ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Gyfun Y Pant) a Miss Rachel Thomas (cyn-bennaeth Gwyddoniaeth Ysgol Lewis i Fechgyn, Pengam). Bu Kathleen yn ymwelydd cyson â'r dyffryn dros nifer o flynyddoedd. Roedd yn mwynhau cerdded yn y cwm ac ymweliadau â Chapel Moriah ar gyfer gwasanaethau amrywiol tra bu'n aros gyda'r teulu yn eu cartref yn Wood Street. Soniodd Kathleen am ei hatgofion hyfryd o fynychu sawl Gymanfa yn y cylch.

Roedd Kathleen yn gerddor medrus a bu'n organyddes yn Eglwys All Saints, Middleton Cheney ger Banbury am flynyddoedd lawer. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn yr eglwys honno cyn y Nadolig. Cydymdeimlir â theulu Kathleen ar yr adeg hon; Mr David Thomas, (mab) Mrs. Caroline Searle, (merch) Yr Athro Annette Volfing (merch-yng-nghyfraith) a'r Athro Mark Searle (mab-yng-nghyfraith).

Cynrychiolwyd cymuned Gilfach Goch yn yr angladd gan aelod o'r teulu Mr. Dean Evans, Porthcawl.

V | J VICTORIA JONES
DIETEGYDD CHWARAEON

*Y mis hwn rydym yn cwrdd â Victoria Jones. Mae Victoria yn Ddeietegydd GIG ac yn Ddeietegydd chwaraeon achredig sy'n arbenigo mewn darparu cymorth a chyngor maethol i bobl egnïol.*

**Sut daethoch chi'n Ddeietegydd chwaraeon?**
Cymhwysais gyda gradd mewn Maeth Dynol a Deieteg yn 2001. Rwyf wedi gweithio ers dros dau ddegawd yn y GIG fel deietegydd a rheolwr deieteg. Arweiniodd fy nghariad at chwaraeon, iechyd a lles fi at gwblhau gradd meistr mewn maeth perfformiad chwaraeon ac ymarfer corff. Teitl achredig a chymhwyster sy'n fy ngalluogi i weithio gyda phobl o bob oed sy'n ymwneud â phob math o chwaraeon ac ar bob lefel.

**Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am fod yn Ddeietegydd Chwaraeon**
Gweld canlyniadau. Mae derbyn adborth bod gan gleientiaid fwy o egni, eu bod yn ymarfer yn well ac yn teimlo'n iachach nag erioed yn deimlad anhygoel.

**Rhowch un tip maeth allweddol i ni!**
Mae bwyd yn fwy na chaloriau yn unig, mae'n rhoi maetholion hanfodol i ni i'n cadw'n iach ac i atal salwch ac anafiadau. Gall pawb wella eu deiet a gall y canlyniadau newid bywydau.



**Sut allwn ni gysylltu â chi?**
Os hoffech chi ddarganfod mwy am sut y gall maeth wneud gwahaniaeth i'ch iechyd a'ch lles gallwch gysylltu â mi isod

**Cynnig arbennig**
*** Dyfynnwch Tafod Elái am 10% oddi ar ymgynghoriad maeth (yn dod i ben diwedd Mawrth 2023) ***

Gallwch gysylltu â mi ar
www.sportsnutritionwales.co.uk
neu e-bostiwch :
Contact@sportsnutritionwales.co.uk

# Taith Côr Meibion Taf i'r Alban

**9-12 Chwefror 2023**

Union flwyddyn yn ôl fe dderbyniodd y côr wahoddiad i ganu yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ar y nos Wener cyn gêm yr Alban yn y 6 Gwlad. Mae aelodau Clwb Rygbi Ynys Bute wedi bod yn ymweld â Phentyrch ar yr achlysur hwn yn ddi-ffael ers deugain mlynedd a chafwyd dathliad arbennig i nodi'r garreg filltir nodedig hon llynedd. Yn ogystal â hynny, fodd bynnag, y noson honno plannwyd y syniad, efallai, y gallai Côr Meibion Taf ddychwelyd i'r ynys ryw ddydd. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach gwireddwyd y freuddwyd ac yn blygeiniol ar fore Iau 9 Chwefror ymadawodd deugain o gantorion, eu harweinydd a'u cyfeilydd ynghyd ag ambell gyfaill ar y daith i Ynys Bute a Chaeredin.

Gwibiodd yr oriau a'r milltiroedd heibio wrth i'r teithwyr ymgiprys am wobrau hael drwy ymateb i heriau niferus ein hysgrifennydd a threfnydd y daith - Colin 'Top Tenor' Williams. Rhennir cynnyrch dwy o'r cystadlaethau yma:

**Brawddeg ar y gair CALEDONIA**: yn fuddugol Gwyn Hughes Jones:
'Cefais aml labswchad efo Delilah ond nawr 'in absentia".

**Limrig yn cynnwys y llinell 'Ar y bws yr holl ffordd i'r Alban'**: Dai Boobier yn fuddugol:

Ar y bws yr holl ffordd i'r Alban
Roedd llawer o gonan a thuchan
Ar ôl hwyl a sbri
Distawrwydd a fu
A nifer o'r bois yn pendwmpian!'

Cyn pen dim roeddem wedi croesi ffiniau Cymru a Lloegr a chyrraedd yr Hen Ogledd. Cafwyd taith hwylus dros ben tuag at Glasgow a thu hwnt ar hyd glannau'r Afon Clyd i borthladd Wemyss Bay. Gan fod rhyw awr fach i'w lladd dyma daro ar draws sefydliad croesawgar tu hwnt yn yr orsaf reilffordd sydd yn gwasanaethu'r porthladd. Cyfle cynta'r daith felly i ymarfer rhai o ganeuon y penwythnos a diddanu'r trigolion lleol ar yr un pryd.

Gwawriodd bore Gwener ac roedd gennym ddewis – ymuno â'r golffwyr am rownd ar gwrs Port Bannatyne neu fynd ar wibdaith o gwmpas yr ynys.

Roedd y cwrs golff yn un heriol yn ôl y sôn a'r gystadleuaeth yn un ffyrnig yn enwedig gan fod Tlws Cymdeithas Golff CMT yn y fantol, tlws newydd a gyflwynwyd i'r côr gan ein his-lywydd, Ieuan Aman Davies. Er mawr lawenydd i bawb, gan gynnwys ei gyd-olffwyr, y buddugwr a deiliad cyntaf y tlws newydd hwn oedd Goronwy 'Gogs' Jones.

Tra'r oedd y golffwyr wrthi yng Nglwb Golff Port Bannatyne, daeth y gweddill ohonom i adnabod yr ynys mewn dull mwy hamddenol, a hynny yng nghwmni yr annwyl Iain Mcleod, cyn-bennaeth




adran ddaearyddiaeth yr ysgol uwchradd leol.

Ac felly at brif nod yr ymweliad hwn ag Ynys Bute, sef y cyngerdd mawreddog yn Mount Stuart House y noson honno. Treuliwyd y prynhawn yn cael ein tywys o gwmpas y plasdy rhyfeddol hwn ac yn cael ein hatgoffa gan yr enwau, y bensaernïaeth a'r hanes o'r cysylltiadau agos iawn sy'n bodoli rhwng yr ynys a Chaerdydd a De Cymru.

Braint Côr Meibion Taf oedd rhannu'r llwyfan mewn noson o gerddoriaeth gyda Chôr Ballianlay a Band Cymunedol Bute. Llanwyd y Neuadd Farmor gyda chynulleidfa leol a gwerthfawrogol oedd yn hael iawn eu canmoliaeth. Codwyd y to pan ymunodd y ddau gôr a'r band mewn perfformiadau gwefreiddiol o anthemau y cefndryd Celtaidd: Hen Wlad fy Nhadau a Highland Cathedral.

Ar ôl llwyddiant ysgubol y cyngerdd ym Mhlasdy Mount Stuart a'r dathlu haeddiannol nôl yn Rothesay, ymlaen â'r daith fore Sadwrn i Gaeredin. Roedd ail berfformiad i'w gyflwyno yng nghlwb rygbi Stewart's Melville amser cinio cyn mynd am Murrayfield ac ail gêm Cymru yn y 6 Gwlad eleni.



Ysblander Neuadd Marmor Mount Stuart

Treuliwyd y cwta ddwy awr yn teithio o arfordir y gorllewin i'r brifddinas yn ail-fyw profiadau bythgofiadwy y noson gynt tra'n paratoi ar yr un pryd am her y diwrnod o'n blaenau. I'n cynorthwyo yn y dasg hon fe'n tywyswyd yn ôl i ddechreuadau y traddodiad barddol Cymraeg a hynny ar ffurf rhyfelgri gan ein harweinydd Colin. Fe'n hudwyd yn llwyr yn ôl i Gatraeth a'r Hen Ogledd gan ddawn y cyfawydd hwn.

Roedd y gwahoddiad i godi'r canu yng nghlwb Stewart's Melville yn gyfle arbennig i greu rhagor o gysylltiadau yn yr Alban. Profwyd croeso gwresog unwaith eto, roedd y clwb dan ei sang a'n braint oedd perfformio i gynulleidfa yn cynnwys, ymhlith eraill, aelodau o Gymdeithas Gymraeg Caeredin.

**Murrayfield: Yr Alban 35 Cymru 7**

A ninnau wedi cyflawni ein gorchwyl olaf roedd cryn edrych ymlaen at ymlacio a mwynhau gêm dda o rygbi. Roedd swyddogion Stewart's Melville wedi sicrhau bloc o seddi i ni gael eistedd gyda'n gilydd. Ond y fath siom! Och a gwae!

'Ac wedi elwch, tawelwch (cymharol) fu.''



Colin yn cyfarch y Pibydd yng Nghlwb Stewart's Melville

Cafwyd taith adref oedd yr un mor hwylus â'r un i fyny i'r Alban dridiau ynghynt. Parhau wnaeth y tasgau, y cwisio a'r gwobrwyo a chyn pen dim (wel, rhyw naw awr) dyma gyrraedd adref. Mae'n diolch ni fel aelodau o Gôr Meibion Taf i Steffan Jones ein harweinydd a Lowri Guy ein cyfeilyddes a phawb gyfrannodd at lwyddiant taith gofiadwy ond yn enwedig i ddau unigolyn sef Dave y gyrrwr rhadlon a thra medrus ac wrth gwrs ein hysgrifennydd a'r arch-drefnydd Colin Williams.

Hywel Jones



# Ysbryd y Celtiaid

*Ar daith Côr Meibion Taf o Ynys Bute i Gaeredin – cafwyd hanes y Celtiaid gan Colin Williams i ysbrydoli'r cantorion. blinderog cyn canu eto yng Nghlwb Rygbi Stewart Melville ar y ffordd i Murrayfield (trueni mawr nad oedd y tîm yn bresennol!)*

Byddai'n fai arnom pe na baem yn sôn ryw ychydig am hanes a daearyddiaeth y rhan yma o wledydd Prydain. Dw i am i chi ddod gyda fi bore ma nôl i'r flwyddyn 603. Mae'r Rhufeinied wedi gadel ers canrif neu ddwy, Magnus Maximus / Macsen Wledig er 388. Mae'r Gymraeg fel ryn ni'n gallu ei hadnabod, wedi esblygu o Frythoneg a Chelteg fel mae'r Athro Ifor Williams wedi'i brofi er fod academwyr eraill wedi amau a oedd iaith mor soffistigedig, a barddonieth mor ddatblygiedig wedi datblygu erbyn 603.

Ychydig iawn o iaith wreiddiol ein cyndadau, Y Celtiaid ar y cyfandir, sy wedi goroesi. Enwau lleoedd sy bob amser yn dadlennu eu hôl a'u hanes. O Ganolbarth Ewrop daeth **un** gangen ohonynt a nhw roth enw i lefydd megis Hallein a Hallstatt a Llyn LaTeine yn y Swisdir fodern. Pam y llefydd hyn? Wel am taw nhw oedd â monopoli ar y mwyn mwya gwerthfawr yn y cyfnod sef ….. HALEN. Ydy, mae'r gair hwnnw'n ein cysylltu gyda stori dwy fileniwm ein hiaith. Yn ogystal â chadw bwydydd pan nad odd ffrijis, fe gadwodd yr halen ddilladach a chreiriau ein cyndeidiau. Ewch i'w gweld yn amgueddfeydd Saltsburg. O Benrhyn Iberia dath cangen arall y Celtiaid. Y Derek Quinells a'r Alun Wyn Bevans o ganolbarth Ewrop a'r Phil Bennets a Steff ein harweinydd o Iberia – y Celtiaid hirgoes gole a'r byrgoes tywyll.

Wrth i'r Celtiaid gael eu gwthio fwyfwy i'r Gorllewin, rhannodd y famiaith, CELTEG, yn chwaer ieithoedd. Un gangen oedd Gaeleg, Gwyddeleg a Manaweg – dyma'r gangen mae rhai'n cyfeirio ati fel cangen Q – a'r gangen arall yw Llydaweg h.y. y Celtiaid hynny arhosodd ar dir mawr Ewrop, Cernyweg (mae Gwenno a'i thad, Tim Saunders yn gwneud cymaint i'w hyrwyddo) a'r Gymraeg. Dyma'r gangen y cyfeirir ati fel cangen P. Fe glywsoch y stori taw Gwyddelod yn ffili nofio ymgartrefodd sha Aberteifi. Dylai lle fel Cennarth fod yn Penarth ond C/Q a geir – yr eithriad sy'n profi'r rheol.

Felly ymlaen â ni i'r flwyddyn 603. Mae tystioleth o'n hiaith o'n cwmpas ymhobman. Ar ein taith bws gwelsom sawl Aber… Pen, Glyn/Glen, Din/Dun, Cun < Cwm, Mel < Moel …. Penrhith (h.y Penrhyd) a Chaer Luel (< Lleu) = Caerliwelydd, Lanark sef llygriad o Llannerch, Llwyfenydd, Erwchwydd, afon Aeron. Gyda llaw, tan yn ddiweddar h.y. 2 neu 3 cenhedlaeth yn ôl, mae na hanes bugeiliaid Cumbria yn cyfri eu defaid mewn hen Gymraeg. I un fel fi gath ei fagu wrth droed Aran Fawddwy - ac Aran Benllyn heb fod ymhell - a theulu fy mam wedi eu magu ar Yr Arenig, rodd hi mor gartrefol wrth i ni groesi Moryd Clud ar y fferi a bron gallu gweld ynys gyfagos, **Aran**. Ryn ni nawr yn Ystrad Clud – a gafodd ei lurgeinio'n Strathclyde – yn hen deyrnas Dunbarton, mae bron pob afon a glyn, yn dystioleth o'r Gymraeg o'n cwmpas. I'r de o Ystrad Clud / Dunbarton ma hen dywysogeth RHEGED (ble roedd Urien a'i fab Owain ap Urien yn frenin a'r bardd Taliesin yn canu eu clodydd, yn yr un cyfnod – ac ymhellach i'r de y daethom drwyddi echdoe, hen deyrnas ELMET/ ELFED, a'r brenin Ceredig a'i fab Rhydderch Hael. O'n blaenau mae Glaschu, Glasgow.

Ond yn Dineiddyn yn nhywysogaeth Manaw Gododdin ryn ni i gyd wedi bod am y flwyddyn dwetha. Pam medde chi? Wel ymateb i alwad y tywysog, MYNYDDOG MWYNFAWR sy wedi bod yn trefnu cyrch ar y gelyn fu yn rheibio'r glannau dwyreiniol, Glannau Moryd Forth, tywysogaeth Brynaich / Bernicia hyd Berwick Upon Tweed. Ble mae'r caer Mynyddog? Wel ar y graig uwchben y ddinas - lle bydd y *Royal Tatoo* blynyddol ymhen 1500 mlynedd!! Dyma'r safle amlwg i godi caer i reoli Eiddyn a theyrnas y Gododdin. Ychydig oddi yno mae Cadair Arthur - bryncyn ac erys olion eglwys a bryngaer hynafol am ganrifoedd i ddod (sy dafliad carreg o senedd-dŷ Holyrood fodern).

Dyma ni, nid 40 ond trichant ohonom, 363 yn ôl adroddiad un llawysgrif, wedi bod yn gwledda, yn cyfeddach, yn meddwi ar fedd a gloddesta ar ancwyn. Yn gwmws fel bu i Pivac a nawr Gatland eto hel ynghyd ei wŷr ifanc mwyaf dewr a thalentog a'u paratoi mewn camp digyfaddawd, felly yr ymatebon ni i gais y Tywysog, MYNYDDOG MWYNFAWR - i ddod i'w ddilyn am ymgyrch uchelgeisiol, annoeth ac yn y diwedd, drasig. Ac i ble ryn ni'n anelu? Caer y gelyn, Y Lloegrwys h.y. Saeson, yn ardal Richmond ond lle a anfarwolwyd gan un o'r geiriau hynaf ac enwocaf yn y Gymraeg,……. CATRAETH. Daethom o Reged, Elmet (sef ardal o gwmpas Leeds), o Brynnaich, o Wynedd, o Arfon, o Rhufoniog, y Deheubarth, Tra Bannawg (ger y Grampians, Bannockburn o bosib), y Mynydd, hefyd o Ddyfnaint. Ryn ni'n marchio 150 milltir i'r de. Odyn ni'n barod i dalu medd Mynyddog? Odyn ni'n barod i dalu'r pris eitha? Odyn ni'n barod i dalu'n HALLT – a dyna ni nôl gyda'r halen. Mae hyn oll wedi'i gofnodi yn yr arwrgerdd – falle taw trasiedi yw'r gair gore. Yn ogystal ag ardal, enw'r gerdd hir, yr epig, yn cofnodi ein henwau, ni'r colledigion, a'n gwrhydri yw'r ……. **Gododdin**.

Enw'r *war correspondent* sy wedi'n coffâu ni'r dewrion hyn yw ANEIRIN/ NEIRIN. Ei enw llawn yn y llys: Aneirin Gwawdrydd Mechdeyrn Beirdd. Mae'n disgrifio ein dull newydd o ymladd ar gefn ceffyl ryn ni wedi'i feistroli a disgrifia'n gignoeth fel mae ambell un yn cynaeafu cyrff, fel tae yn ei gwsg. Yn gwmws fel y clodforai Bill McLaren ambell Gymro'n bylchu, ac ochrgamu Gerald ac yn gwmws fel y disgrifiai Huw Eic hyrddiad nerthol Grav cyn trosglwyddo pas amserol i Ieuan (pas nid offload, sylwer!!) ma Aneirin ynte'n cofnodi'r cyfan. Ac am yr un rheswm, er mwyn i'n teuluoedd ar yr aelwyd gartref ein coffâu â balchder, i'n teulu a'n cyfeillion ymfalchîo yn ein gwrhydri. Ond mae bargen wedi'i tharo rhyngom a'r teyrn, Mynyddog Mwynfawr. Ryn ni wedi bod yn mwynhau ei letygarwch am flwyddyn gron …. Medd, ancwyn, cyfeddach. Mae'n bryd i ni dalu'r pris, talu'n medd. A thalu'n hallt a wnawn ni. Yn ôl pob sôn mae 18 o'r gelyn am bob un ohonon ni yng ngosgordd Mynyddog. Ond dyw hynny'n menu dim arnom, nagyw bois?? Nagyw bois?

Pwy yw y gelyn? Gwŷr DEIFR a BRYNNEICH rhwng afon Humber ac afon Tyne. Fe gipiwyd ein Caer ni'r Cymry yn BAMBURGH oddi arnom rhyw ddeng mlynedd ynghynt. Dyma'r llwythau ffurfiodd Northumbria yn ddiweddarach, dan eu brenin, Aethelfrith ac yna Edwin. Fe gyfeirir atynt fel Lloegrwys ac erbyn 638 byddant wedi cipio Caereiddyn oddi arnom yn ogystal. Gyfeillion ryn ni yn un o safleoedd mwya hanesyddol a barddonol yn hanes ein cenedl – dyma'n Waterloo, ein Trafalgar, ein Dunkirk ni). Bydd canu Aneirin yn dal i daro tant 1500 yn ddiweddarach, bydd y cerddi hyn yn cael eu canu neu eu pastynnu gan ddisgynyddion megis Aneirin Caradog. Gyda llaw, un o Fro y Gododdin oedd Cunedda a sefydlodd dywysogaeth Gwynedd ac mae rhai o'i linach ef gyda ni heddi yn mynd i wynebu'r gelyn.

Diolch i Aneirin, bydd yn cyfansoddi cerdd o 1500 llinell yn coffâu dewrder a gwrhydri pob un ohonoch. Bydd yn cofnodi ymladd di-baid Dydd Llun, Mawrth a Mercher, yna egwyl i ni allu cyfri'r celannedd, clirio'r cyrff o faes y gâd, cyn ail-ddechrau ar y brwydro dydd Sadwrn, Sul a Llun. Ac erbyn y dydd Llun, tri ohonom fydd ar ôl wedi goroesi, yn ogystal ag Aneirin ei hun. Bydd yn enwi 24 ohonom a bydd ein teuluoedd yn ymhyfrydu ynom. Bydd canu amdanom am ganrifoedd i ddod yn llysoedd Gwynedd, Powys a'r Deheubarth. * traddodiad llafar fyddai yn y llysoedd hyn a'r pencerdd yn cofio miloedd o linellau ar ei gof yn yr un modd ag y byddai'r Cyfarwydd, yr adroddwr chwedlau, yn adrodd miloedd o eiriau gair am air, megis ceinciau'r Mabinogi, Breuddwyd Macsen a Rhonabwy. Mae'r cofnod ysgrifenedig, y llawysgrif gynharaf sy gennym o'r Gododdin yn dyddio o 1265 ond mae'n amlwg o'r iaith ei bod yn gopi o lawysgrif hŷn.

Gadewch i ni glywed am ein gweithredoedd ar faes y gâd. Peidiwch â cheisio deall pob gair. Sylwch ar y rhythm, yr odli mewnol, y cyseinedd, sain y cytseiniaid yn ateb ei gilydd h.y beth sy gyda ni yw'r gynghanedd gynnar a hynny dros 1500 o flynyddoedd yn ôl:-

Parhad tudalen 16 >

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Gwasanaeth Mr Coleman**
Daeth Mr Coleman i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i ni gyd. Roedd y gwasanaeth yn hyfryd ac edrychwn ymlaen at weld Mr Coleman eto gyda'i gyfaill Doug.

**Ysgol Trehopcyn yn dod i siarad Cymraeg**
Daeth Criw Cymraeg Ysgol Trehopcyn i'r ysgol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg gyda Chriw Cymreig ein hysgol ni. Cawsant hwyl yn chwarae gemau gyda'i gilydd ar iard yr ysgol. Bydd ail ymweliad yn fuan.

**Eisteddfod Ysgol**
Dydd Llun, Chwefror 6ed cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn. Cafwyd perfformiadau graenus gan bawb a oedd yn canu a'n llefaru. Hoffem ddiolch i Miss Menna Lewis am feirniadu a hoffem ddymuno'n dda i bawb a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch ym mis Mawrth.



**Dydd Miwsig Cymru**
Cawsom ddiwrnod i'w gofio ar Ddydd Miwsig Cymru eleni. Dechreuom y diwrnod yn y neuadd yn gwrando ar ddau gerddor lleol yn perfformio. Daeth y delynores, Bethan Nia i ganu caneuon gwerin gyda'i thelyn drydan ac yna perfformiodd Mr Jones ar ei gitâr drydan. Roedd pawb wrth eu boddau. Yn y prynhawn, roedd disgo yn y neuadd gyda phob dosbarth yn dawnsio i'w hoff gerddoriaeth Gymraeg. Trwy gydol yr wythnos, buom yn gwrando ar gân Gymraeg bob dydd a phleidleisio dros ein hoff gân.



**Pêl-droed yr Urdd**
Roedd mis Chwefror yn fis prysur iawn i bêl-droedwyr yr ysgol. Aeth dau dîm i gystadlu yng nghystadleuaeth ranbarthol yr Urdd. Chwaraeodd y merched yn wych ac yna wythnos yn ddiweddarach roedd cyfle i'r bechgyn gystadlu a mwynhau. Da iawn bawb am wneud eich gorau glas ac am wneud mor dda.



**Ymweliadau â'r llyfrgell**
Diolch i Miss Spencer am barhau gyda'r cysylltiadau â'r llyfrgell yn nhref Pontypridd. Mae'r dosbarthiadau wedi dychwelyd y llyfrau a ddewiswyd yn ystod eu hymweliad cyntaf ac wedi dewis mwy o lyfrau gwych i ni eu cadw yn y dosbarth am fis.

**Croeso i fyfyrwyr TAR**
Croeso cynnes i Miss Mills a Miss Cripps sy'n fyfyrwyr TAR ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r ddwy yn nosbarthiadau Pwyll a Rhiannon a Blodeuwedd gyda Mr Spanswick a Mrs Martin. Pob dymuniad da i chi.

**Her ailgylchu**
Diolch i gynrychiolwyr o Gyngor Rhondda Cynon Taf am ddod i bwyso'r holl fagiau o gardiau Nadolig i'w hailgylchu. Roedd y bagiau'n drwm iawn a'n pwyso sawl cilogram. Diolch i'r Cyngor Eco am drefnu'r cyfan.



**Wythnos Meddwlgarwch**
Cawsom wythnos fendigedig yn llawn gweithgareddau arbennig yn ystod ein hwythnos meddwlgarwch. Yr uchafbwynt oedd creu enfys meddwlgarwch ar iard yr ysgol gyda phob blwyddyn yn gyfrifol am liw arbennig ar ffurf "art attack". Cawsom hwyl yn ar ein helfa o amgylch yr ysgol yn chwilio am fwydod meddwlgarwch. Diolch i'r Cyngor Iechyd a Lles am drefnu'r gweithgareddau.

**Prosiectau Diogelwch ar y We**
Yn ystod y mis, creodd yr arweinwyr digidol gystadleuaeth a oedd yn gofyn i bob dosbarth greu rhywbeth a oedd yn mynd i hybu diogelwch ar y we. Roedd yr ymateb yn arbennig a phob dosbarth wedi cymryd rhan. Cawsom lu o brosiectau diddorol. Mari a Gwen o ddosbarth Culhwch ac Olwen ddaeth i'r brig, gyda'u fideo yn dangos peryglon siarad gyda phobl ddieithr ar-lein. Da iawn ferched!



# Ysbryd y Celtiaid

(Parhad o dudalen 15)

Gwyr a aeth Ododdin, chwerthin wanar,
Disgyniaid ym myddin, trin ddiachar,
Wy lleddynt a llafnawr heb fawr drydar.
Colofn glyw, Rheithfyw rhoddi arwar.
Gwyr a aeth Gatraeth, oedd ffraeth eu llu,
Glasfedd eu hancwyn a gwenwyn fu,
Trychant trwy beirant yn catau,
A gwedi elwch tawelwch fu.
Cyd elwynt lannau i benydu,
Dadl ddiau angau i eu treiddu

Mae beirdd megis Gwynn ap Gwilym yn yr ugeifed ganrif wedi rhoi gwedd newydd ar frwydr Catraeth – credaf y byddwch chi'n synhwyro pa mor gignoeth oedd hi ar faes y gâd

Brwydr y brwydrau
Haul ar eurdorchau
Twrf y tariannau,
Chwimwth geffylau,
Arwyr mewn arfau,
Clwyfau'r cleddyfau
A'r gwaed ar y gwayw,
Sgarlad a phorffor
Trichant a rhagor;
Arfau cyn allor,
Brwydr cyn neithior;
Arwyr yng nghynnor
Briwiau yn agor
A'r gwaed ar y gwair

Ie, trasiedi aflwyddiannus oedd y cyrch ar Gatraeth ac fel yn achos Tryweryn, ryn ni'n tueddu i loddesta yn y methiant. Ond, fel yn achos ymgyrch lwyddiannus Llangyndeyrn, deugain mlynedd ar ôl Catraeth mae bardd (nid Aneirin na Thaliesin) yn cofnodi ymgyrch lwyddiannus yn Ystrad Clud ble mae'r Cymry'n lladd y brenin Gwyddelig, Dyfnwal Frych / Domnall Brecc ym mrwydr Strathcarron, yn Bannawg, Bannockburn o bosib:

Gwelais i lu o bentir a ddeuent
A phrydferth 'nghylch coelcerth ymosodent.
Gwelais i ddau lu, o'u tre'n fuan y trawsant –
A milwyr Nwython a godasant.
Gwelais wŷr enfawr gyda'r wawr a ddeuent.
A phen Dyfnwal Frych – brain a'i cnoent

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

### Ymweliad â'r Plantasia



Cafodd plant Blwyddyn 3 a 4 hwyl wrth ymweld â Plantasia yn Abertawe. Cawson nhw gyfle i ddysgu am fywyd yn y coedwigoedd glaw trofannol, gan arsylwi ar wahanol blanhigion ac anifeiliaid gan gynnwys trychfilod, madfallod a mwncïod.





### Ymweliad PC Jenkins



Diolch yn fawr i PC Jenkins am ddod i'r ysgol i siarad am amrywiaeth o themâu gan gynnwys rôl yr heddlu a phryd i gysylltu â'r gwasanaethau brys, diogelwch ar y we a chyfryngau cymdeithasol a sut i ddefnyddio offer fel ffonau symudol yn briodol.





### Diwrnod Diogelwch y We




Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn trafod sut i gadw'n ddiogel ar y we yn ddiweddar. Dyma ddisgyblion Dosbarth 6 gyda'u posteri yn dangos rheolau pwysig i'w cofio pan yn defnyddio'r rhyngrwyd.

### Dydd Santes Dwynwen



Dyma blant Dosbarth 4 yn dathlu Dydd Santes Dwynwen. Bu'r plant yn brysur yn creu cerdyn, ysgrifennu cerddi, creu siocledi siâp calon a chreu calonnau gyda Lego.





### Elusen Felindre

Roedd yr ysgol yn fôr o goch yn ddiweddar wrth i'r plant wisgo dillad coch ar gyfer diwrnod arbennig "Gwisgwch Goch i Felindre".










### Eisteddfod yr Ysgol



Cafwyd llu o gystadlu brwd yn ddiweddar yn yr Eisteddfod Ysgol, o ganu i lefaru i ganu'r piano yn ogystal â chystadlaethau ysgrifenedig gan gynnwys llawysgrifen, ysgrifennu stori a barddoni. Diolch arbennig i blant Dosbarth 1 (meithrin a cyn-feithrin) am berfformio cân y Robin Goch yn wych!
Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd a phob lwc i'r rhai fydd yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch.




### Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Lois am ennill y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth yn y gynghrair "Cyclecross" Gymreig yn ddiweddar. Camp a hanner, da iawn ti Lois!

### Dydd Miwsig Cymru

Bu'r ysgol gyfan yn dathlu Dydd Miwsig Cymru gan ddathlu a mwynhau caneuon Cymraeg. Cafwyd cystadleuaeth i'r plant greu fideo ohonynt naill ai'n meimio neu'n dawnsio i gân Gymraeg. Diolch o galon i bawb a gystadlodd. Cafodd aelodau'r Criw Cymraeg dipyn o drafferth i ddewis yr enillwyr!










# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Pel-droed**
Llongyfarchiadau mawr i ferched blwyddyn 5 a 6 am gyrraedd rownd gyn-derfynol cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd - gwych! Diolch Mr Jones am eu hyfforddi.

**Y We**
Bu'r ysgol gyfan yn dysgu sut i fod yn ddiogel ar-lein yn ystod ein diwrnod diogelwch ar y we. Diolch i Mrs Jones am drefnu ac am y wybodaeth. Mae pawb yn fwy ymwybodol o'r peryglon nawr.



**Croesi'r Ffordd**
Mae Blwyddyn 2 newydd ddechrau cwrs 9 wythnos gan Vicky am y Cod Croesi Gwyrdd. Mae pob un yn gwrando'n astud ac yn dysgu y wybodaeth bwysig. Diolch Vicky!



**PC Jenkins**
Diolch i PC Jenkins am ddod i siarad gyda'r dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 am 'Bobl sy'n Helpu'.




**Coch**
Ar ddechrau'r mis fe wnaeth yr ysgol droi yn goch wrth i'r disgyblion a'r staff wisgo coch i Gymru ac i Felindre. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



**Rhifedd**
Diolch i staff Ysgol Garth Olwg am drefnu sesiwn rhifedd i ddisgyblion MATh y clwstwr. Cafwyd llawer o drafodaethau diddorol ac fe grewyd gemau gwych. Edrychwn ymlaen at weld y rhai gorffenedig.




# Mei Gwynedd yn Acapela




Ers ei arddegau cynnar, mae Mei Gwynedd wedi bod yn cyfansoddi a pherfformio gyda rhai o fandiau mwyaf blaengar y sin roc Gymraeg, yn cynnwys Beganifs, Big Leaves, The Peth a Sibrydion.

Yn 2018 cychwynnodd bennod newydd, gan ddechrau rhyddhau cerddoriaeth o dan enw ei hun, drwy ryddhau dwy LP (Glas 2018 a Y Gwir Yn Erbyn Y Byd 2021). Yn ogystal â hyn mae wedi gweithio ar sawl prosiect adnabyddus, fel cyfansoddi'r gan dorfol Pethau Bychain, a gomisiynwyd gan yr Urdd, i ail recordio fersiwn Hei Mistar Urdd, sydd wedi creu hanes drwy gyrraedd y Guinness Book Of Records yn 2023!

Teimlai Mei felly fod 2023 yn flwyddyn dda i ddathlu'r gerddoriaeth sydd wedi ei siapio fel cerddor, drwy fynd ati i ail recordio caneuon poblogaidd a thraddodiadol Cymru wrth roi ei stamp unigryw arnynt, a galw'r prosiect yn Sesiynnau Tŷ Potas.

Yn ôl Mei 'Rwyf wedi tyfu i fyny yn clywed cerddorion fel Tebot Piws, Hogia'r Wyddfa, Mynediad Am Ddim, Dafydd Iwan a'r holl ganeuon traddodiadol y canom ni fel plant, ac roeddwn eisiau cydnabod hyn drwy ail recordio rhai o'r clasuron, gyda'r cerddorion talentog rwy wedi bod yn cyd-weithio gyda dros y blynyddoedd. Roeddwn yn awyddus i roi'r teimlad eich bod yn eistedd mewn tafarn yn y wlad yn ymuno gyda hwyl y band, megis yr enw Sesiwn Tŷ Potas! Dwi hefyd yn teimlo dyletswydd arnom ni i basio'r clasuron yma ymlaen i'r genhedlaeth newydd.'

Bydd Mei a'r Band Tŷ Potas yn lansio yr LP yn Acapela ar Fai 5ed gan edrych ymlaen at berfformio'r caneuon ar lwyfannau a thafarndai Cymru. 'Rwy'n edrych ymlaen at gael hwyl yn perfformio'r clasuron yma, ond hoffwn agor y drysau i gynulleidfa newydd, efallai rhai di-Gymraeg, a dangos gweddill y byd bod ni yng Nghymru gyda chlasuron ein hunain sy'n sefyll cefn yng nghefn gyda chaneuon gweddill y byd'.

Yn ogystal â bod yn un o berfformwyr a chyfansoddwyr mwyaf adnabyddus Cymru, mae Mei yn gynhyrchwr cerdd uchel ei barch, mae'n rhedeg label Recordio ein hun, Recordiau JigCal ac yn arweinydd Y Gerddorfa Ukulele.

***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

**Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar rcerijones@gmail.com

( Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

# Ysgol Tonyrefail

**Archifdy Morgannwg**

Cafodd Blwyddyn 6 amser hynod ddiddorol yn ystod eu hymweliad ag Archifau Morgannwg yn ddiweddar. Fel rhan o'u gwaith yn edrych ar yr ardal leol cawsant y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau casglu gwybodaeth wrth edrych ar ystod o ffynonellau hanesyddol gan gynnwys edrych ar wahanol fapiau o'r pentref, gwybodaeth o'r cyfrifiad a chyfeirlyfrau o wahanol fusnesau'r ardal. Diolch yn fawr i staff yr archifdy am drefnu'r gweithdy.



Craffu ar restr o fusnesau Tonyrefail ar ddechrau'r ugeinfed ganrif



Bl6 yn defnyddio eu sgiliau ymchwilio yn Archifau Morgannwg

**Apêl Ddyngarol - Twrci a Syria**

Mewn ymateb i'r trychineb yn sgil y ddaeargryn yn Nhwrci a Syria - trefnodd y Cyngor Ysgol ddiwrnod heb wisg ysgol i godi arian at y gronfa. Diolch i bawb am eu cyfraniad, llwyddwyd i gasglu £156.

**Bore Hwyl Blwyddyn 5**

Roedd plant Blwyddyn 5 yn gyffrous iawn i fynd ar eu hymweliad cyntaf ag Ysgol Llanhari fel rhan o Fore Hwyl y clwstwr. Roedd y gwahanol sialensiau a'r brecwast wedi plesio'n fawr iawn yn ogystal â chael y cyfle i gwrdd â disgyblion Blwyddyn 5 ysgolion Llanhari, Llantrisant a Dolau.



Disgyblion Bl5 yn mwynhau bore o sialensau yn Ysgol Llanhari

**Dydd Miwsig Cymru**

Bu'r Criw Cymraeg wrthi'n brysur yn trefnu digwyddiadau i ddathlu Dydd Miwsig Cymru yn yr ysgol. Cafodd y plant amser wrth eu boddau yn gwrando ar bob math o gerddoriaeth Cymraeg gan gynnwys dawnsio yn y disgo rhithiol gyda Tara Bandito.




Bl4 yn mwynhau Dydd Miwsig Cymru.




Bl3 yn dathlu dydd Miwsig Cymru

**Gwasanaeth**

Diolch yn fawr i Mr Coleman am ddod i gynnal gwasanaeth i'r plant. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar stori'r Bugail Da.



Gwasanaeth Gyda Mr Coleman

**Diwrnod Diogelwch y Rhyngrwyd**

Diolch yn fawr i PC. Jenkins a ddaeth i siarad gyda'r disgyblion am sut i gadw'n saff ar-lein. Roedd y gweithdai hyn yn rhan o weithgareddau ar draws yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 16eg Ionawr 2023 cawsom ddarlith ddiddorol dros ben gan William Lamb sy'n fyfyriwr doethuriaeth ym Mhrifysgol Vanderbilt yn Nashville yn yr UDA. Mae William yn wreiddiol o Benisarwaun ac aeth i ysgolion Penisarwaun a Brynrefail cyn gwneud gradd mewn Ffiseg a Mathemateg ym Mhrifysgol Efrog. Roedd William yn ymweld â grŵp tonnau disgyrchol yn Adran Ffiseg Prifysgol Caerdydd ac fe wnaeth gytuno i ddod i siarad â ni yn adeilad newydd sbon Prifysgol Caerdydd sef Canolfan Bywyd Myfyrwyr lle darparwyd ystafell gyfarfod hybrid gyda cynulleidfa fyw a chynulleidfa ar Zoom.

Esboniodd William y cefndir i'w waith ar donnau disgyrchiant, syniad a broffwydwyd gan ddamcaniaeth perthnasedd gyffredinol Albert Einstein yn 1916 ond ni ddaeth canfyddiad uniongyrchol tan 2015 gydag arbrawf o'r enw LIGO sef Laser Interferometer Gravitational-Wave Observatory. Llwyddodd yr arbrawf yma i ganfod dau dwll du anferth yn taro mewn i'w gilydd yn bell, bell i ffwrdd trwy ddefnyddio ymyrraeth rhwng pelydrau goleuni laser i fesur newidiadau bychain iawn mewn hyd twneli wrth i donnau disgyrchiant o'r digwyddiad basio trwy'r Ddaear. Roedd rhaid mesur newidiadau ar raddfa milfed rhan o faint niwclews atom – llwyddiant technolegol anhygoel arweiniodd at wobr Nobel.

Mae William yn rhan o brosiect o'r enw NANOGrav (North American NanoHertz Observatory for Gravitational Waves) sydd yn chwilio am donnau disgyrchiant gwannach na'r rhai gwelodd arbrawf LIGO. Gwneir hyn trwy wneud mesuriadau manwl o pylsêrau - sêr ar ddiwedd eu bywydau sy'n cynhyrchu pylsiau radio rheolaidd dros ben. Trwy edrych ar y pylsêrau mewn gwahanol gyfeiriadau gellir ceisio mesur newidiadau yn amseriad y pylsiau o ganlyniad i donnau disgyrchiant yn pasio trwyddynt ac mae William yn ysgrifennu meddalwedd i wneud y broses hyn yn haws ac yn gynt. Mae gwyddonwyr dros y byd yn defnyddio y meddalwedd yma ac heb wybod eu bod yn defnyddio geiriau Cymraeg wedi eu gosod gan William fel rhan hanfodol o'r meddalwedd!

Rhys Morris
(un o ysgrifenyddion CWCC)

**Ailgylchu Cerdiau Nadolig**

Diolch i'r Cyngor Eco am drefnu i gasglu ac ailgylchu cerdiau Nadolig eto eleni. Casglwyd 23.3Kg o gerdiau ar gyfer cystadleuaeth flynyddol Rhondda Cynon Taf.

# Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Mentrau Iaith Cymru a PYST yn lansio cylchdaith gigs newydd**

Mae Mentrau Iaith Cymru a PYST wedi cyhoeddi eu bod am gydweithio i lansio a datblygu cylchdaith gigs newydd ar gyfer artistiaid Cymraeg. Bydd y daith gyntaf yn digwydd yn y Gwanwyn.

Nôd y gylchdaith yw cynnig cyfleon i artistiaid deithio Cymru gyda'r pwyslais ar ymweld â mannau lle nad ydynt yn chwarae yn aml, os o gwbwl. Bydd y gylchdaith hefyd yn gyfle i ddod â cherddoriaeth fyw Gymraeg yn ôl i ardaloedd sydd wedi eu hamddifadu o hynny dros y blynyddoedd diweddar. Y gobaith hefyd yw y bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn ymgysylltiad pobl â diwylliant Cymraeg a rhoi cyfle o'r newydd iddynt fwynhau hynny yn eu hardaloedd.

Cefnogir y gylchdaith hefyd gan gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n helpu cannoedd o neuaddau pentref a grwpiau cymunedol ledled Cymru i archebu sioeau proffesiynol.




Rydym yn falch i gyhoeddi bod y band **HMS Morris** ac **Elis Derby** yn dod i **Glwb y Bont ar y 14eg o Ebrill**! Bydd tocynnau ar gael i'w prynnu yn fuan. Cadwch olwg ar ein tudalennau cymdeithasol am ragor o fanylion.

**Dydd Miwsig Cymru 2023**

Braf oedd cael gweithio mewn partneriaeth lleol gyda'r Urdd, Ysgolion, Coleg y Cymoedd, Beacons, Merched yn Gwneud Miwsig a Chlwb y Bont i ddathlu Dydd Miwsig Cymru eleni. Trefnwyd gig gyda Hana Lili yn Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Llanhari, gig gyda'r band CHROMA yn Ysgol Cwm Rhondda a gig Mali Haf yng Ngholeg y Cymoedd ar y 10fed o Chwefror. Wedyn ar ddydd Sadwrn trefnwyd gweithdai DJ a gig nos gyda CHROMA ac Eädyth yng Nghlwb y Bont. Diolch yn fawr i bawb oedd wedi helpu ni ddathlu'r diwrnod. Rydyn ni wedi bod yn ffodus iawn i weld amrywiaeth o fandiau Cymraeg yn y sir dros y flwyddyn diwethaf. Ni mor gyffrous am flwyddyn arall llawn miwsig ac i weld MWY o'r bandiau ac artistiaid anhygoel sydd gyda ni yng Nghymru yn dod i RhCT!









**Prosiect Medrau - Cyrsiau Addysg Oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r Fenter yn gyffrous i allu cynnig cyfres o gyrsiau blasu addysg oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod mis Mawrth. Byddwn yn cynnig cyrsiau megis ffeltio nodwydd, gwnïo, iwcalilis, cerddorfa agored, cyflwyno'r Gymraeg i rieni, Chat Cymraeg, Cymorth Cyntaf, Technoleg a mwy! Bydd y cyrsiau yn cael eu cynnal ar draws y sir yn Nghwm Cynon, y Rhondda a Thaf. Cadwch lygaid ar ein cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf neu os hoffech chi mwy o wybodaeth, cysylltwch ag osian.roberts@menteriaith.cymru.




**Parti Ponty 2023**

Nodyn i'r dyddiadur! Cynhelir **Parti Ponty** ar **ddydd Sadwrn, Mai 13eg** ym Mharc Goffa Ynysangharad, Pontypridd eleni. Bydd **Parti Pwll Ponty 2023** ar **nos Wener, Mai 12fed** yn Lido Cenedlaethol Cymru a gig nos yng Nghlwb y Bont nos Sadwrn, Mai 13eg. Mwy o fanylion i ddilyn...

Mae pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf wedi derbyn gwahoddiad i berfformio yn Parti Ponty 2023!

Llongyfarchiadau i'r ysgolion cyntaf i ymateb – Côr clwstwr ysgolion cynradd Ysgol Uwchradd Treorci.

Ni'n falch iawn i groesawu Ysgol Evan James, Ysgol Dolau ac Ysgol Ynyswen fydd yn perfformio yn ystod y dydd.

Bydd perfformiadau gan ensemblau Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf hefyd.

Diolch am eich cefnogaeth!

Edrychwn ymlaen at rannu rhagor o fanylion gyda chi dros y misoedd nesaf.

**Hysbysebu digwyddiadau neu wasanaethau Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf**

Ydych chi'n trefnu digwyddiad Cymraeg neu'n fusnes sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf? Hoffai Menter Iaith Rhondda Cynon Taf eich helpu i hyrwyddo eich digwyddiadau a gwasanaethau Cymraeg trwy ein gwefan a gwefannau cymdeithasol! I hysbysebu digwyddiad trwy Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, cwblhewch y ffurflen ar waelod y dudalen yma ar ein gwefan – www.menteriaith.cymru/gweithgareddau-activities. I rannu manylion eich busnes/gwasanaeth neu am ragor o fanylion cysylltwch â marged@menteriaith.cymru

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**

Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe

**Facebook:** @MenterRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570

